Dim ond gyda chaniatâd ymlaen llaw gan y gwerthusai y gellir cael tystiolaeth arall.

Dylid darparu cymorth a hyfforddiant priodol yn ystod y cylch.

Os na fydd y cymorth y cytunwyd arno'n cael ei ddarparu, dylid cyfeirio hyn at y gwerthuswr a gofyn am gyngor.

Rhaid cytuno ar drefniadau ar gyfer unrhyw drafodaethau adolygu perfformiad anffurfiol yn y cyfarfod cynllunio.

Rhaid cadw cofnod ysgrifenedig o'r drafodaeth.

Adolygu Perfformiad

Cynhelir cyfarfod ar ddiwedd y cylch i adolygu cynnydd yn erbyn yr amcanion.

Gellir cyfuno'r cyfarfod hwn â'r cyfarfod cynllunio nesaf lle caiff amcanion eu gosod ar gyfer y cylch nesaf.

Dylid gwirio'r dogfennau i'w defnyddio yn yr adolygiad a chytuno arnynt.

Ar ddiwedd y cylch, bydd y gwerthusai a'r gwerthuswr yn cyfarfod er mwyn cynnal adolygiad gwerthuso o berfformiad y gwerthusai.

Yn ôl Rheoliadau, pwrpas adolygu'r gwerthusiad yw gweld i ba raddau mae'r gwerthusai wedi cyflawni ei amcanion o safbwynt Ymarfer, Adolygu a Datblygu, a dynodi unrhyw anghenion hyfforddi neu ddatblygu.

Er ei fod yn gyfarfod gwahanol ac ar wahân, dylai'r cyfarfod hwn i adolygu'r gwerthusiad gael ei gyfuno fel arfer â'r cyfarfod cynllunio, lle bydd yr amcanion ar gyfer y cylch nesaf yn cael eu gosod, oni bai y ceir anghytundeb ynghylch canlyniad adolygiad y cylch blaenorol. Os bydd hyn yn digwydd, dylid gofyn am gyngor gan yr NASUWT i drafod apêl.

Datblygiad cyflog

Pan fydd y gwerthusai yn gymwys ar gyfer datblygiad cyflog, mae'n rhaid i'r gwerthuswr roi argymhelliad i'r pennaeth ar gyfer datblygiad cyflog, yn seiliedig ar y datganiad gwerthuso.

Lle bo'n berthnasol, mae'n rhaid i'r gwerthuswr wneud argymhelliad ar ddatblygiad cyflog yn seiliedig ar y datganiad gwerthuso.

Dogfennau

Dylid sicrhau ar ddechrau cyfarfod adolygu'r gwerthusiad bod y gwerthusai a'r gwerthuswr yn gweithio o'r un dogfennau.

Bydd hyn yn cynnwys:

- y cofnod cynllunio;
- cofnod o anghenion hyfforddi a datblygu proffesiynol (os crëwyd un yn wreiddiol yn y cyfarfod cynllunio);
- taflenni adborth ar ôl arsylwi yn yr ystafell ddosbarth;
- cofnod Ymarfer, Adolygu a Datblygu;
- unrhyw dystiolaeth arall y cytunwyd arni a gasglwyd yn ystod y cylch gwerthuso, ar yr amod bod y gwerthusai wedi rhoi caniatâd ymlaen llaw.

Dylai'r rhai sy'n cael eu gwerthuso wneud yn siŵr:

- bod casgliadau'r arsylwadau yn yr ystafell ddosbarth yn ddilys ac yn gywir;
- bod y dystiolaeth ychwanegol a gasglwyd wedi dod gan y ffynonellau y cytunwyd arnynt cyn eu casglu;
- bod y wybodaeth yn gywir.

Gwerthuso'r canlyniad

Asesir y perfformiad yn erbyn yr amcanion ar sail y meini prawf perfformio sydd wedi'u gosod ar ddechrau'r cylch a chan roi ystyriaeth i'r cofnod Ymarfer, Adolygu a Datblygu.

Dylid asesu cynnydd da tuag at gyflawni amcan heriol mewn ffordd ffafriol, hyd yn oed os nad yw'r meini prawf perfformio wedi'u bodloni yn llawn.

Dylid cydnabod cryfderau a chyflawniadau a rhoi ystyriaeth i unrhyw ffactorau y tu allan i reolaeth y gwerthusai, gan gynnwys unrhyw anawsterau o ran amodau gwaith sydd wedi cael effaith ar gyflawni amcanion. Os cytunir ar y canlyniad, gellir gosod amcanion ar gyfer y cylch gwerthuso nesaf, a'u cofnodi, yn unol â'r cyngor a roddwyd yn flaenorol ar gyfer Cynllunio (gweler tudalen 13).

Os yw'r gwerthusai'n bryderus am ganlyniad yr adolygiad o'r gwerthusiad yng nghyswllt unrhyw un o'r amcanion, nid yw'n ddoeth iddo gytuno ar amcanion newydd ar gyfer y cylch nesaf a allai fod yn seiliedig arnynt neu'n berthnasol iddynt.

Cynghorir y rhai sy'n cael eu gwerthuso i gadw nodyn byr o'r hyn a ddywedir yn ystod y cyfarfod er eu gwybodaeth eu hunain.

Cofnodi'r canlyniad a'r broses apelio

Dylid cofnodi canlyniad yr ystyriaeth a roddwyd i bob amcan ar y datganiad am yr adolygiad gwerthuso.

Dylid cwblhau'r datganiad yn y cyfarfod os yw hynny'n bosib. Os nad yw hyn yn bosib, mae Rheoliadau yn mynnu ei fod yn cael ei lunio gan y gwerthuswr o fewn deg diwrnod ysgol.

Pan fydd yn derbyn y datganiad am yr adolygiad gwerthuso, dylai'r gwerthusai wneud yn siŵr ei fod yn gofnod cywir. Yn unol â Rheoliadau, rhaid nodi unrhyw bryderon arno o fewn deg diwrnod ysgol i'w dderbyn.

Os ceir pryderon, dylai'r rhai sy'n cael eu gwerthuso geisio cyngor gan yr NASUWT cyn rhoi sylwadau ysgrifenedig ar y datganiad am yr adolygiad gwerthuso, er mwyn pennu sut y gellir mynd i'r afael â'r pryderon hyn ac a fyddai troi at y broses apelïadau'n briodol.

Mae'n bwysig bod y broses hon yn cael ei chwblhau cyn i'r gwerthuswr wneud unrhyw argymhelliad ar ddatblygiad cyflog. O ganlyniad, dylid cymryd cyngor ar unwaith gan NASUWT gan mai dim ond deg diwrnod ysgol a ganiateir o ddyddiad derbyn y datganiad am yr adolygiad gwerthuso i ychwanegu sylwadau a/neu i gyflwyno apêl.

Dylid gwerthuso perfformiad, gan gydnabod cryfderau a chyflawniadau.

Dylid ystyried safbwyntiau'r gwerthusai yn llawn.

Os cytunir ar y canlyniad, gellir gosod amcanion ar gyfer y cylch nesaf.

Os ceir anghytundeb, ni ddylid gosod amcanion newydd am y tro, a dylid cysylltu â'r NASUWT.

Dylid drafftio datganiad am yr adolygiad gwerthuso sy'n cofnodi'r canlyniad a, lle bo'n briodol, argymhelliad ar ddatblygiad cyflog.

Dylai'r gwerthusai sicrhau ei fod yn gywir.

Gellir rhoi sylw i bryderon am ganlyniad yr adolygiad gwerthuso drwy'r weithdrefn apelio (gallai canlyniad yr apêl, yn ei dro, effeithio ar yr argymhelliad cyflog).

Dim ond os ceir cyngor gan NASUWT y dylid defnyddio'r drefn hon.

Bydd NASUWT yn rhoi cyngor a chefnogaeth ar gyfer y broses apelio.

Bydd y datganiad gwerthuso a, lle bo'n briodol, yr argymhelliad ar ddatblygiad cyflog yn cael eu rhoi i'r pennaeth a rhoddir copi i'r gwerthusai.

Dim ond yn unol â darpariaethau Rheoliadau y gellir ei ddefnyddio.

Dylid cysylltu â NASUWT os oes problemau'n codi.

Mynediad at y datganiad gwerthuso a chadw'r datganiad

Dylai'r rhai sy'n cael eu gwerthuso dderbyn copi o'r datganiad gwerthuso ar ôl y cyfarfod adolygu.

Ar ôl ei gwblhau, bydd y gwerthuswyr yn rhoi'r datganiad gwerthuso i'r pennaeth.

Ar gais, dylai'r pennaeth roi copi i'r unigolion a nodir yn Rheoliadau.

Rheolir y modd y defnyddir y datganiad am yr adolygiad gwerthuso gan Rheoliadau.

Rhaid cadw'r datganiad gwerthuso am chwe blynedd o leiaf.

Gwerthuswyr

Mae'r adran hon yn darparu cyngor a gwybodaeth benodol ar gyfer gwerthuswyr ar faterion allweddol a chmau gweithredu sy'n ofynnol yn ystod y broses gwerthuso.

Dylai'r cyngor i werthuswyr gael ei roi ar waith yng nghyd-destun Adrannau 1-3 y cyfarwyddyd hwn.

Penodi'r gwerthuswr

Mae gwerthuswyr yn gyfrifol am gynnal adolygiad gwerthuso blynyddol yr unigolion sy'n cael eu gwerthuso. Y pennaeth sy'n eu dewis. Dylai'r unigolyn a gaiff ei ddewis fod yn rhywun sydd â gwybodaeth gyffredinol am waith y gwerthusai ac sy'n gallu cynnig cefnogaeth. Mae'n arfer rheoli da i'r pennaeth ymgynghori â'r staff hynny sy'n cael eu hystyried ar gyfer y rôl honno cyn eu penodi.

Mae NASUWT yn credu mai'r bobl fwyaf priodol i ymgymryd â'r swydd hon yw'r rheini mewn swyddi sy'n cynnwys cyfrifoldebau rheoli llinell y ceir tâl ychwanegol amdanynt. Y rheini ar y golofn gyflog arwain, neu'r rheini sy'n derbyn taliadau am gyfrifoldebau dysgu ac addysgu, yw'r rhai sy'n debygol o fod yn werthuswyr. Mewn ysgolion bach, mae'n bosib mai'r pennaeth yw gwerthuswr y staff i gyd.

Rhaid ystyried y goblygiadau o ran baich gwaith y gwerthuswyr, a rhaid rhoi sylw iddynt.

Dylai aelodau sy'n poeni ynghylch ymgymryd â chyfrifoldebau gwerthuswr gysylltu â NASUWT i gael cymorth.

Ni waeth pwy sy'n arsylwi gwers yn ystod y cylch rheoli perfformiad, y gwerthuswr yw'r unig un sy'n gyfrifol am yr argymhelliad i'r pennaeth ar ddatblygiad cyflog i athrawon cymwys.

Cynllunio

Dylai'r gwerthuswr drefnu a chynnal cyfarfod gyda'r gwerthusai.

Mae'r dogfennau sy'n ofynnol ar gyfer y cyfarfod wedi'u nodi ym mharagraff 26 o Reoliadau (gweler Atodiad 1).

Gosod amcanion

Yn y cyfarfod, ni ddylid gosod mwy na thri amcan ar gyfer y cylch gwerthuso. Yn ôl Rheoliadau, mae'n rhaid i'r rhain gynnwys amcanion sy'n ymwneud â chynnydd disgyblion, unrhyw feini prawf ynghylch datblygiad cyflog, a datblygu a gwella arfer proffesiynol yr athro. Gallai un neu ragor o'r amcanion fod yn amcan ysgol gyfan a rennir ag athrawon eraill, fel y nodir yng nghynllun gwella'r ysgol. Ni ddylai amcanion sy'n ymwneud â chynnydd disgyblion gynnwys targedau rhifiadol sy'n ymwneud â chanlyniadau disgyblion. Dywedir wrth werthuswyr am ddarllen cyfarwyddyd NASUWT ar osod amcanion, sydd yn Atodiad 3 y cyfarwyddyd hwn.

Rhaid darllen y cyfarwyddyd hwn ar y cyd ag Adrannau 1-3.

Dylai penaethiaid ymgynghori â'r staff maent yn bwriadu eu nodi a'u penodi yn werthuswyr.

Dim ond y rheini sydd â chyfrifoldebau rheoli llinell y ceir tâl ychwanegol amdanynt y dylid eu dewis.

Ni ddylai baich gwaith gwerthuswyr gynyddu.

Rhaid i'r argymhellion ar ddatblygiad cyflog i athrawon cymwys gael eu gwneud gan y gwerthuswr yn unig.

Dylid trefnu'r cyfarfod cynllunio i osod amcanion a chytuno arnynt.

Dylid nodi'r dogfennau sydd i'w defnyddio.

Ni ddylid gosod mwy na thri amcan ar gyfer y cylch gwerthuso.

Ni ddylid cynnwys targedau rhifiadol sy'n ymwneud â chanlyniadau disgyblion yn yr amcanion.

Dylid sicrhau bod yr amcanion yn bodloni meini prawf NASUWT.

NODYN: Dylid ystyried safbwyntiau'r gwerthusai yn llawn a cheisio dod i gytundeb.

Dylid nodi anghenion hyfforddi a datblygu, adnoddau a chefnogaeth, a chytuno arnynt yn y cyfarfod cynllunio.

Dylid cofnodi'r amcanion, y gefnogaeth, yr amserlenni a'r gofynion hyfforddi a datblygu ar y cofnod cynllunio.

Noder: dylid rhoi cofnod o'r anghenion o ran hyfforddi ac adnoddau i'r unigolyn priodol.

Dylid caniatáu amser y tu allan i'r cyfarfod ar gyfer y gwerthusai, iddo ystyried cynnwys y cofnod cynllunio a'r atodiad.

Mae'r cofnod cynllunio/datganiad amcanion yn gyfrinachol i'r gwerthusai ac i'r gwerthuswr.

Meini prawf ar gyfer amcanion

Dylai'r gwerthuswr sicrhau bod yr amcanion:

- yn glir, yn gryno ac yn realistig, a bod modd eu cyflawni a'u mesur;
- yn cyfrannu at gynnydd disgyblion;
- yn ymwneud yn uniongyrchol â disgrifiad swydd y gwerthusai;
- yn canolbwyntio ar faterion y mae gan y gwerthusai ddylanwad/rheolaeth uniongyrchol drostynt;
- ddim yn cynnwys gweithgareddau gwirfoddol nac allgyrsiol fel clybiau mathemateg, adolygu a gwaith cartref, na HMS ar y penwythnos ac yn ystod y gwyliau;
- yn ystyried unrhyw anawsterau yn amgylchedd gwaith y gwerthusai, fel disgyblion aflonyddgar, dosbarthiadau mawr, disgyblion gydag anghenion arbennig mewn dosbarthiadau prif ffrwd, neu adnoddau annigonol;
- wedi'u teilwra i ystyried a yw'r gwerthusai yn gweithio'n rhan-amser neu a oes arno angen addasiadau rhesymol i gefnogi anabledde;
- ddim yn cynnwys targedau rhifiadol sy'n ymwneud â chanlyniadau disgyblion.

Cymorth

Ar ôl nodi'r amcanion, dylid cytuno ar y gefnogaeth a'r adnoddau, gan gynnwys oriau cyfeiriedig, athrawon llanw ac unrhyw anghenion hyfforddi a datblygu sy'n ofynnol er mwyn gallu cyflawni'r amcanion. Does dim gofyn i'r gwerthusai fynychu cyrsiau hyfforddi nac ymgymryd ag unrhyw weithgarwch arall yn ei amser ei hun er mwyn cyflawni amcanion (gan gynnwys unrhyw arsylwi).

Cofnodi canlyniad y cyfarfod cynllunio

Dylai'r wybodaeth ganlynol gael ei rhoi ar y cofnod cynllunio:

- amcanion;
- hyfforddi a datblygu;
- adnoddau i gefnogi'r amcanion;
- gweithdrefnau ar gyfer monitro cynnydd.

I gynnal cyfrinachedd y cofnod cynllunio, dylai'r gwerthuswr roi cofnod ar wahân o'r anghenion hyfforddi a datblygu ac unrhyw ofynion ychwanegol o ran adnoddau i'r rheini sy'n gyfrifol am roi sylw i'r materion hyn. Cyfrifoldeb y gwerthuswr yw llenwi'r cofnod cynllunio, yn ogystal â'r anghenion hyfforddi a datblygu. Ceir templed cofnod cynllunio yn Atodiad 2, Anecs B.

Byddai'n well ceisio gorffen hyn yn y cyfarfod, pan fydd y drafodaeth yn fyw ym meddwl pawb. Mae hyn hefyd yn lleihau baich gwaith y gwerthuswr.

Does dim angen defnyddio brawddegau llawn yn y cofnod cynllunio na'r cofnod hyfforddi a datblygu. Dim ond pwyntiau bwled clir, â ffocws cadarn iddynt, sydd eu hangen. Dylid trafod yr hyn a gaiff ei gofnodi yn llawn â'r gwerthusai.

Os bydd y gwerthusai yn gofyn am amser i ystyried y ddogfen y tu allan i'r cyfarfod, dylid cytuno i hyn, ond dylid gosod terfyn amser eglur ar gyfer ei ddychwelyd. Ar ôl cytuno, dylai'r gwerthuswr roi'r cofnod cynllunio i'r gwerthusai.

Os dilynir cyngor NASUWT, mae'n annhebygol y bydd anghytuno ynglŷn â'r amcanion. Fodd bynnag, pe bai hyn yn digwydd, dylid gwneud pob ymdrech i ddatrys y broblem. Os nad oes modd datrys y broblem, mae Rheoliadau yn dweud y bydd y gwerthuswr yn cofnodi'r amcanion sy'n briodol yn ei farn ef/hi, a chaiff y gwerthusai ychwanegu sylwadau ysgrifenedig. Dylai'r gwerthuswr roi gwybod i'r pennaeth os nad oes modd dod i gytundeb.

Os bydd anghytuno, dylid cofnodi'r amcanion priodol a rhoi gwybod i'r pennaeth.

Monitro Cynnydd

Arsylwi yn yr ystafell ddosbarth

Fel arfer, mae'n debyg mai'r gwerthuswr fydd yr unigolyn a fydd yn arsylwi gwersi.

Dewis gwersi i'w harsylwi

Fel y nodir ym model enghreifftiol yr NASUWT, dylid dewis amrywiaeth gytbwys o wersi i'w harsylwi er mwyn dangos ystod gwaith y gwerthusai.

Dylid sicrhau bod amrywiaeth gytbwys o wersi'n cael eu dewis i'w harsylwi.

Amser arsylwi

Dylai'r amser a dreulir yn arsylwi fod yn ddigonol er mwyn gallu gwneud penderfyniad teg, a dylai fod yn gymesur â'r angen o ran yr amcanion a osodir ac a yw'r gwerthusai yn gweithio'n rhan-amser, neu mewn swydd amser llawn. Mae NASUWT yn credu ei bod yn hanfodol sicrhau nad oes gormod o wersi'n cael eu harsylwi. Fel arfer, dim ond unwaith y tymor y dylid arsylwi gwers, ac ni ddylai gymryd mwy nag awr, un ai gan ffynonellau mewnol (fel penaethiaid adrannau, cydlynwyr cwricwlwm) neu gan ffynonellau allanol (fel cynghorwyr athrawon a'r Awdurdod Lleol). Pan fydd person heblaw'r gwerthuswr yn arsylwi, mae'n rhaid i'r gwerthuswr gael cofnod o'r arsylwi.

Dylid sicrhau mai dim ond un wers sy'n cael ei harsylwi bob tymor ac nad yw'n cymryd mwy nag awr i arsylwi.

Dylid sicrhau mai dim ond un wers sy'n cael ei harsylwi bob tymor ac nad yw'n cymryd mwy nag awr i arsylwi.

Mae angen i werthuswyr gadw cofnod cryno o ddyddiad, amser a hyd yr arsylwi, a phwy sy'n arsylwi, er mwyn sicrhau nad oes mwy nag un wers yn cael ei harsylwi bob tymor ac nad yw'n cymryd mwy nag awr.

Rhybudd arsylwi

Dylid cofnodi dyddiad, amser, ffocws a hyd bob gwers a gaiff ei harsylwi yn y cofnod cynllunio.

Cofnodi manylion ar ôl arsylwi gwersi

Rhaid i'r wybodaeth a geir wrth arsylwi gwersi gael ei chofnodi gan y sawl sy'n arsylwi ar y cofnod adborth arsylwi gwersi a rhaid rhoi copi i'r gwerthusai a'r gwerthuswr. Bydd angen i werthuswyr sicrhau bod hyn yn cael ei wneud.

Does dim modd i werthuswyr gasglu tystiolaeth ychwanegol heb gael caniatâd ymlaen llaw gan y gwerthusai.

Rhaid cytuno ar drefniadau ar gyfer unrhyw drafodaethau adolygu perfformiad anffurfiol yn y cyfarfod cynllunio.

Rhaid cadw cofnod ysgrifenedig o'r trafodaethau hyn.

Rhaid trefnu cyfarfod a fydd yn edrych ar yr adolygiad o'r amcanion cyn gosod rhai newydd ar gyfer y cylch nesaf.

Dylid rhoi adborth mor fuan â phosib ar ôl arsylwi. Dylid nodi hyn ar y cofnod adborth arsylwi gwersi Atodiad 2, Anecs D. Pan fydd y gwerthusai'n gofyn am gyfarfod adborth, ni ddylid gwrthod hyn heb reswm da.

Dylai gwerthuswyr sicrhau bod y gwerthusai'n cael cyfle i gofnodi sylwadau ar y ffurflen adborth. Penderfyniad y gwerthusai yw gwneud hyn ai peidio. Dylid rhoi copi o'r ffurflen adborth i'r gwerthusai (gweler Atodiad 2, Anecs D).

Casglu tystiolaeth arall

Caniatâd ymlaen llaw

Mae Rheoliadau yn atal gwerthuswyr rhag casglu gwybodaeth ychwanegol (ar lafar neu'n ysgrifenedig), sy'n berthnasol i berfformiad y gwerthusai, gan bobl eraill heb i'r gwerthusai roi caniatâd ymlaen llaw.

Dylid cytuno ar ffynonellau'r dystiolaeth, sef y ffurflenni adborth arsylwi gwersi a'r cofnod Ymarfer, Adolygu a Datblygu, a'u cofnodi yn y cyfarfod cynllunio.

Nid yw'n ofynnol casglu gwybodaeth ychwanegol os nad ydych chi'n credu bod angen gwneud hynny.

Pe defnyddir y ddarpariaeth hon, mae'n hanfodol bod y gwerthuswr yn sicrhau caniatâd y gwerthusai ymlaen llaw. Dylai gwerthuswyr fod yn glir ynglŷn â pham bod angen gwybodaeth ychwanegol arnynt a pha wybodaeth sydd ei hangen. Dylent hefyd egluro hyn wrth y gwerthusai wrth geisio ei ganiatâd.

Trafodaethau adolygu perfformiad anffurfiol

Does dim gofyniad yn Rheoliadau i gynnal, neu fwriadu cynnal cyfarfodydd interim ffurfiol nac anffurfiol i adolygu perfformiad yn ystod y cylch gwerthuso.

Fodd bynnag, mae cyfarwyddyd Llywodraeth Cymru yn cyfeirio at y fath drafodaethau ac mae Polisi Enghreifftiol NASUWT yn caniatáu i'r gwerthuswr a'r sawl sy'n cael ei werthuso ailedrych ar yr amser a dreulir yn arsylwi gwersi yn ystod y cylch er mwyn cefnogi'r gwaith o gyflawni unrhyw amcanion.

O ganlyniad, dylid cytuno ar drefniadau ar gyfer unrhyw drafodaethau adolygu perfformiad anffurfiol yn ystod y cylch yn y cyfarfod cynllunio, ac yn gyffredinol, dylai'r gwerthuswr sicrhau bod trafodaethau o'r fath yn cael eu cynnal yn ystod y cyfnodau arsylwi gwersi ac adborth.

Rhaid i'r gwerthuswr a'r gwerthusai gadw cofnod ysgrifenedig o'r trafodaethau.

Adolygu Perfformiad

Bydd cyfarfod yn cael ei gynnal ar ddiwedd y cylch gwerthuso, ac mewn amgylchiadau arferol, bydd yn cynnwys dwy ran wahanol:

- adolygu'r amcanion sydd wedi'u cofnodi;
- cynllunio a gosod amcanion ar gyfer y cylch gwerthuso nesaf.

Ceir datganiad gwerthuso a thempled atodiad yn Atodiad 2, Anecs F.

Ceir templed cofnod cynllunio yn Atodiad 2, Anecs B.

Dogfennau

Ar ddechrau'r cyfarfod, dylai'r gwerthuswr wneud yn siŵr bod gan y gwerthusai'r holl ddogfennau y bwriedir cyfeirio atynt.

Bydd hyn yn cynnwys:

- cofnod cynllunio;
- cofnod o'r anghenion hyfforddi a datblygu (os crëwyd un yn wreiddiol yn y cyfarfod cynllunio);
- ffurflenni adborth ar ôl arsylwi gwersi;
- cofnod adolygu a datblygu ymarfer;
- unrhyw dystiolaeth wedi'i chasglu yn ystod y cylch gwerthuso, os cafwyd caniatâd y gwerthusai ymlaen llaw.

Gwerthuso'r canlyniad

Dylai gwerthuswyr ddarparu asesiad eglur a chryno ynghylch a yw pob un o'r amcanion a gofnodir wedi'u cyflawni, neu a oes cynnydd da wedi'i wneud tuag at eu cyflawni.

Dylai canlyniad yr adolygiad ganolbwyntio ar wybodaeth sy'n ymwneud yn uniongyrchol â'r amcanion y cytunwyd arnynt. Mae'n amhriodol i faterion ychwanegol, fel ystyriaeth gyffredinol o gyfraniad y gwerthusai i fywyd yr ysgol, ddylanwadu ar ei gyflawniad o'r amcanion, oherwydd gallai hyn arwain at farn oddrychol, sy'n gwahaniaethu, o bosib, gan beri i'r gwerthuswr fod yn agored i gwyno a herio cyfreithiol posib.

Dylai gwerthuswyr asesu perfformiad yn erbyn y meini prawf perfformio sydd wedi'u gosod ar ddechrau'r cylch gwerthuso, ac ystyried cofnodion a wnaed wrth arsylwi gwersi a'r cofnod Ymarfer, Datblygu ac Adolygu, gan asesu'n ffafriol unrhyw gynnydd da tuag at gyflawni amcan heriol, hyd yn oed os nad yw'r amcanion wedi'u bodloni'n llawn.

Dylai gwerthuswyr sicrhau bod cryfderau a llwyddiannau'r gwerthusai'n cael eu cydnabod, a bod unrhyw ffactorau y tu hwnt i reolaeth y gwerthusai yn cael eu hystyried. Dylid trafod safbwyntiau'r gwerthusai, a'u hystyried yn llawn.

Datblygiad cyflog

Lle bo'n briodol, mae'n rhaid i werthuswyr wneud argymhelliad i'r pennaeth ar ddatblygiad cyflog. Eto, dylid trafod safbwyntiau'r gwerthusai, a'u hystyried yn llawn. Ceir templed NASUWT ar gyfer yr argymhelliad ar ddatblygiad cyflog yn Atodiad 2, Anecs H.

Os cytunir ar ganlyniad yr adolygiad a'r argymhelliad ar ddatblygiad cyflog, gellir gosod yr amcanion ar gyfer y cylch gwerthuso nesaf, a'u cofnodi, yn unol â'r cyngor a roddwyd yn flaenorol yn Adran 3, Cynllunio.

Dylid nodi'r dogfennau i'w defnyddio yn yr adolygiad, a chytuno arnynt.

Dylid gwerthuso pob amcan.

Dylid ystyried safbwyntiau'r gwerthuswr yn llawn.

Dylid ystyried gwybodaeth sy'n ymwneud yn uniongyrchol â'r amcanion yn unig.

Dylid asesu'n ffafriol unrhyw gynnydd da tuag at gyflawni amcan heriol.

Dylid cydnabod cryfderau a llwyddiannau.

Lle bo'n briodol, dylid gwneud argymhelliad i'r pennaeth ar ddatblygiad cyflog (gweler templed Atodiad 2, Anecs H).

Os oes modd dod i gytundeb, dylid gosod amcanion ar gyfer y cylch gwerthuso nesaf.

Os nad oes modd dod i gytundeb, dylid oedi rhag gosod amcanion newydd.

Dylid rhoi gwybod i'r pennaeth os bydd anghytuno.

Y pennaeth sy'n gyfrifol am gydymffurfio â'r Rheoliadau yng nghyd-destun mynediad.

Dylid cysylltu â'r NASUWT os bydd problemau'n codi ynghylch unrhyw un o'r materion yn Adran 4.

Fodd bynnag, os ceir anghytuno ynglŷn â chanlyniad yr adolygiad neu'r argymhelliad ar ddatblygiad cyflog, byddai'n annoeth pe bai'r gwerthuswr yn mynnu gosod yr amcanion ar gyfer y cylch gwerthuso nesaf, yn enwedig pe bai angen i'r rhain ddatblygu ar amcanion y cylch gwerthuso blaenorol, neu pe baent yn ymwneud yn uniongyrchol â hwy. Mae Rheoliadau yn dweud y dylai'r gwerthuswr gofnodi ei farn ynghylch canlyniad pob amcan ar y datganiad gwerthuso, os na ellir dod i gytundeb.

Dylai'r gwerthuswr roi gwybod i'r pennaeth os bydd anawsterau'n codi.

Cofnodi'r canlyniad a'r broses apelio

Dylid cofnodi asesiad y gwerthuswr o bob un o'r amcanion ar y datganiad gwerthuso.

Os nad oes modd llenwi'r datganiad yn y cyfarfod, mae Rheoliadau yn ei gwneud yn ofynnol i'r gwerthuswr ei greu cyn pen deg diwrnod ysgol ar ôl dyddiad y cyfarfod adolygu, a'i roi i'r gwerthusai. Bydd gan y gwerthusai ddeg diwrnod ysgol ar ôl ei dderbyn i ychwanegu sylwadau, ac os yn briodol yn ei farn ef, gallai gyflwyno apêl mewn amgylchiadau lle nad oedd modd dod i gytundeb. Felly, mae'n hanfodol bod cofnod cywir yn cael ei gadw o'r dyddiad y rhoddwyd y datganiad i'r gwerthusai.

Pan fydd apêl yn cael ei chyflwyno, dylai'r broses fod wedi'i chwblhau cyn i'r gwerthuswr roi'r argymhelliad ar ddatblygiad cyflog i'r pennaeth.

Proses apelio

Os caiff apêl ei chyflwyno, bydd y darpariaethau yn Rheoliadau yn cael eu rhoi ar waith (gweler Atodiad 1). Bydd hyn yn golygu y bydd swyddog apeliadau'n cael ei benodi i ystyried yr apêl.

Y pennaeth fydd y swyddog apeliadau, onid y pennaeth yw'r gwerthuswr. Yn yr amgylchiadau hyn, cadeirydd y llywodraethwyr fydd y swyddog apeliadau.

Ceir manylion swydd y gwerthuswr yn y weithdrefn apelio yn Rheoliadau.

Mynediad at y datganiad gwerthuso a chadw'r datganiad

Dylai'r gwerthuswr roi'r datganiad gwerthuso i'r pennaeth ar ôl y cyfarfod adolygu, a rhoi copi i'r gwerthusai. Ni ddylai gadw copi ei hun, er y gallai gael mynediad at y datganiad ar gais i'r pennaeth, pe bai angen.

Y pennaeth sy'n gyfrifol am gydymffurfio â Rheoliadau sy'n ymwneud â mynediad at ddatganiadau gwerthuso y gwerthusai, ac am y modd y caiff y datganiad hwnnw ei ddefnyddio.

Atodiad 1

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2011 Rhif 2940 (C. 316)

ADDYSG, CYMRU

Rheoliadau Gwerthuso Athrawon Ysgol (Cymru) 2011

<i>Gwnaed</i>	<i>6 Rhagfyr 2011</i>
<i>Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru</i>	<i>8 Rhagfyr 2011</i>
<i>Yn dod i rym</i>	<i>1 Ionawr 2012</i>

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 21(3) a 131 o Ddeddf Addysg 2002⁽¹⁾ ac sydd bellach wedi'u breinio ynddynt hwy, ac ar ôl ymgynghori yn unol ag adran 131(7) o Ddeddf Addysg 2002 ag unrhyw gymdeithasau awdurdodau lleol yng Nghymru, awdurdodau lleol yng Nghymru, cyrff sy'n cynrychioli buddiannau cyrff llywodraethu yng Nghymru a chyrff sy'n cynrychioli buddiannau athrawon yng Nghymru y mae'n ymddangos iddynt eu bod yn briodol, yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:

RHAN I – CYFFREDINOL

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1. – (1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Gwerthuso Athrawon Ysgol (Cymru) 2011 a deuant i rym ar 1 Ionawr 2012.
(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

Diddymu, arbedion a darpariaethau trosiannol

2. – (1) Yn ddarostyngedig i baragraff (2), mae Rheoliadau Gwerthuso Athrawon Ysgol (Cymru) 2002⁽³⁾ (fel y'u diwygiwyd), Rheoliadau Gwerthuso Athrawon Ysgol (Diwygio) (Cymru) 2009⁽²⁾, Rheoliadau Gwerthuso Athrawon Ysgol (Cymru) (Diwygiad Rhif 2) 2009⁽⁴⁾ a Rheoliadau Llywodraethu Ysgolion (Cylch Gwaith) (Diwygio) (Cymru) 2002⁽⁵⁾ wedi'u diddymu.
(2) Mae'r arbedion a'r darpariaethau trosiannol yn rheoliadau 19, 33 a 46 ac yn yr Atodlen yn effeithiol.

Dehongli

3. – (1) Ac eithrio lle mae'r cyd-destun yn mynnu fel arall, yn y Rheoliadau hyn –
ystyr "athro neu athrawes ddigyswllt" ("*unattached teacher*") yw athro neu athrawes a gyflogir gan yr awdurdod ac sy'n cwympo o fewn un o'r categorïau a ganlyn;
(a) athro neu athrawes nad yw'n gysylltiedig ag ysgol benodol;
(b) athro neu athrawes a gyflogir i ddarparu addysg gynradd neu uwchradd heblaw mewn ysgol; neu
(c) athro neu athrawes a gyflogir mewn uned cyfeirio disgyblion (gan gynnwys athro neu athrawes sydd â gofal uned); ond nid yw'n cynnwys athro neu athrawes a gyflogir o dan gontract cyfnod byr;
ystyr "athro neu athrawes ysgol" ("*school teacher*") yw athro neu athrawes a gyflogir gan awdurdod lleol neu gan gorff llywodraethu ysgol sefydledig, ysgol wirfoddol a gynorthwyir neu ysgol arbennig sefydledig, ond nid yw'n cynnwys athro neu athrawes a gyflogir o dan gontract cyfnod byr;
ystyr "awdurdod" ("*authority*") mewn perthynas ag athro neu athrawes ddigyswllt yw'r awdurdod lleol sy'n cyflogi'r athro neu'r athrawes ac os yw ef neu hi yn gyflogedig gan fwy nag un awdurdod, yna pob awdurdod o'r fath;
mae i "Awdurdod Esgobaeth" yr ystyr a roddir i "*Diocesan Authority*" yn adran 142⁽⁶⁾ a (4) o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998⁽¹⁾;
ystyr "contract cyfnod byr" ("*short term contract*") yw contract cyflogaeth am gyfnod penodol o lai nag un tymor ysgol;
ystyr "corff llywodraethu" ("*governing body*") mewn perthynas ag ysgol yw corff llywodraethu'r ysgol, ac ystyr "llywodraethwr" ("*governor*") yw aelod o'r corff llywodraethu hwnnw;
ystyr "Cynllun Gwella'r Ysgol" ("*School Improvement Plan*") yw'r cynllun strategol sy'n nodi'r amcanion ar gyfer gwella darpariaeth a pherfformiad yr ysgol;
ystyr "datganiad amcanion" ("*statement of objectives*") yw'r datganiad ysgrifenedig o amcanion a gofnodir o dan reoliad 12⁽⁵⁾, rheoliad 26⁽⁵⁾ neu reoliad 39⁽⁵⁾, yn ôl fel y digwydd;
mae i "datganiad gwerthuso" ("*appraisal statement*") yr ystyr a roddir iddo gan, yn ôl fel y digwydd, rheoliad 15⁽⁴⁾, rheoliad 29⁽⁴⁾ neu reoliad 42⁽⁴⁾;

(1) 2002 p.32; a roddwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn Neddf Addysg 2002 ac a drosglwyddwyd i Weinidogion Cymru gan baragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32).

(2) O.S. 2002/1394 (Cy.137). Cafodd Rheoliadau Gwerthuso Athrawon Ysgol (Cymru) 2002 eu diwygio gan Reoliadau Staffio Ysgolion a Gynhelir (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2007 (O.S. 2007/944) (Cy.80), Rheoliadau Gwerthuso Athrawon Ysgol (Diwygio) (Cymru) 2009 (O.S. 2009/2159) (Cy. 183), Rheoliadau Gwerthuso Athrawon Ysgol (Cymru) (Diwygiad Rhif 2) 2009 (O.S. 2009/2864) (Cy.251) a Gorchymyn Awdurdodau Addysg Lleol ac Awdurdodau Gwasanaethau Plant (Integreiddio Swyddogaethau) (Is-ddeddfwriaeth) (Cymru) 2010 (O.S. 2010/1142) (Cy. 101).

(3) O.S. 2009/2159 (Cy. 183).

(4) O.S. 2009/2864 (Cy. 251).

(5) O.S. 2002/1396 (Cy. 138).

(6) 1998 c.31.

ystyr "diwrnod ysgol" ("school day") yw diwrnod pan fydd yr ysgol yn cyfarfod;

ystyr "y dyddiad perthnasol" ("the relevant date") yw 1 Medi 2012;

ystyr "y Ddogfen" ("the Document") yw'r ddogfen y cyfeirir ati mewn unrhyw orchymyn sydd mewn grym am y tro o dan adran 122 o Ddeddf Addysg 2002;

ystyr "Gwybodaeth am Berfformiad Disgyblion" ("Pupil Performance Information") yw gwybodaeth am berfformiad disgyblion mewn ysgolion yng Nghymru fel y'i pennir gan Weinidogion Cymru o dro i dro;

ystyr "Gwybodaeth am Berfformiad Ysgolion" ("School Performance Information") yw gwybodaeth am berfformiad ysgolion yng Nghymru fel y'i pennir gan Weinidogion Cymru o dro i dro mae "pennaeth" ("head teacher") yn cynnwys pennaeth dros dro;

ystyr "Polisi Rheoli Perfformiad yr Ysgol" ("School Performance Management Policy") yw'r polisi ysgrifenedig sy'n nodi sut y bydd polisi gwerthuso staff yn yr ysgol yn cael ei roi ar waith;

ystyr "Prif Swyddog Addysg" ("Chief Education Officer") yw prif swyddog addysg yr awdurdod lleol (neu, yn achos athro neu athrawes ddigyswllt, prif swyddog addysg yr awdurdod);

ystyr "Rheoliadau 2002" ("the 2002 Regulations") yw Rheoliadau Gwerthuso Athrawon Ysgol (Cymru) 2002;

mae "tymor ysgol" ("school term") yn cynnwys (a) cyfnod o amser sydd heb fod yn fwy nag wythnos yn fyrrach na thymor ysgol llawn a (b) dau hanner tymor olynol;

ystyr "ysgol" ("school") yw ysgol gymunedol, ysgol wirfoddol, ysgol sefydledig, ysgol arbennig gymunedol neu ysgol arbennig sefydledig neu ysgol feithrin a gynhelir;

ac ystyr "ysgol sydd â chymeriad crefyddol" ("school which has a religious character") yw ysgol sefydledig neu ysgol wirfoddol sydd wedi'i dynodi fel ysgol â chymeriad o'r fath o dan adran 69(3) o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Rheoliadau hyn –

(a) at reoliad â rhif yn gyfeiriad at y rheoliad sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Rheoliadau hyn;

(b) at baragraff â rhif yn gyfeiriad at y paragraff sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y rheoliad y mae'r cyfeiriad yn ymddangos ynddo; ac

(c) at yr Atodlen yn gyfeiriad at yr Atodlen i'r Rheoliadau hyn.

Y ddyletswydd i werthuso

4. – (1) Mae'n ddyletswydd ar gorff llywodraethu a phennaeth ysgol i arfer eu swyddogaethau o dan y Rheoliadau hyn gyda golwg ar sicrhau bod perfformiad athrawon ysgol a phenaethiaid wrth gyflawni eu dyletswyddau yn yr ysgol yn cael ei werthuso'n rheolaidd yn unol â'r Rheoliadau hyn.
- (2) Yn achos athro neu athrawes ysgol neu bennaeth a gyflogir mewn dwy neu fwy o ysgolion, rhaid i'w perfformiad ym mhob ysgol gael ei werthuso ac felly mae "ysgol" ym mharagraff (1) i gael ei ddarllen fel cyfeiriad at bob ysgol.
- (3) Pan fo'r awdurdod wedi dirprwyo i athro neu athrawes ysgol rai neu'r cyfan o'r dyletswyddau a osodir ar werthuswr fel y'i caniateir gan reoliad 36(2), dyletswydd corff llywodraethu a phennaeth yr ysgol yw arfer eu swyddogaethau o dan y Rheoliadau hyn gyda golwg ar sicrhau bod perfformiad yr athro neu'r athrawes ddigyswllt wrth gyflawni eu dyletswyddau yn yr ysgol honno ac mewn ysgolion eraill yn cael ei werthuso'n rheolaidd yn unol â'r Rheoliadau hyn.
- (4) Dyletswydd yr awdurdod yw arfer ei swyddogaethau o dan y Rheoliadau hyn gyda golwg ar sicrhau bod perfformiad athrawon digyswllt wrth gyflawni eu dyletswyddau tuag at yr awdurdod yn cael ei werthuso'n rheolaidd yn unol â'r Rheoliadau hyn.

Polisi Rheoli Perfformiad yr Ysgol

5. – (1) Cyn i'r cylch gwerthuso ddechrau rhaid i'r corff llywodraethu, yr awdurdod lleol a'r pennaeth sefydlu a chynnal Polisi Rheoli Perfformiad i'r Ysgol.
- (2) Rhaid i'r corff llywodraethu, yr awdurdod lleol a'r pennaeth adolygu Polisi Rheoli Perfformiad yr Ysgol, ac os penderfynant wneud hynny, ei ddiwygio, a hynny'n flynyddol o leiaf.
- (3) Caiff y corff llywodraethu a'r awdurdod lleol ddirprwyo'r gwaith o ffurfio drafft o Bolisi Rheoli Perfformiad yr Ysgol, neu ddrafft o ddiwygiadau iddo, i bennaeth yr ysgol, er mwyn iddynt gael eu hystyried.
- (4) Os na ellir cytuno rhaid i'r awdurdod lleol bennu Polisi Rheoli Perfformiad yr Ysgol.
- (5) Cyn sefydlu neu ddiwygio Polisi Rheoli Perfformiad yr Ysgol, rhaid i'r corff llywodraethu (neu, os y cyfarwyddir ef gan y corff llywodraethu, y pennaeth) ymgynghori ag athrawon yr ysgol yn yr ysgol yngly'n â chynnwys Polisi Rheoli Perfformiad yr Ysgol, neu'r newidiadau a gynigir iddo.
- (6) Rhaid i'r corff llywodraethu a'r pennaeth roi Polisi Rheoli Perfformiad yr Ysgol ar waith.
- (7) O leiaf unwaith yn ystod pob blwyddyn ysgol rhaid i'r pennaeth gyflwyno adroddiad ysgrifenedig i'r corff llywodraethu ynghylch sut mae Polisi Rheoli Perfformiad yr Ysgol yn gweithredu o dan y Rheoliadau hyn, pa mor effeithiol yw gweithdrefnau gwerthuso'r ysgol, ac anghenion athrawon yr ysgol a'r pennaeth o ran hyfforddi a datblygu.
- (8) Rhaid i'r corff llywodraethu sicrhau bod copi o Bolisi Rheoli Perfformiad yr Ysgol ar gael i'w archwilio yn yr ysgol ar ddiwrnodau ysgol.

RHAN II – GWERTHUSO PENAEITHIAID

Cymhwysio Rhan II

6. Mae rheoliadau 7 i 19 yn gymwys i werthuso penaeithiaid yn unig.

Penodi gwerthuswyr

7. – (1) Rhaid i gorff llywodraethu ysgol benodi yn werthuswyr pennaeth o leiaf ddau lywodraethwr, y mae'n rhaid i un ohonynt o leiaf fod yn llywodraethwr sefydledig i'r ysgol os yw'n ysgol sydd â chymeriad crefyddol neu'n ysgol wirfoddol a gynorthwyr sydd heb gymeriad crefyddol.
- (2) Caiff y corff llywodraethu ar unrhyw adeg benodi gwerthuswr newydd yn lle unrhyw werthuswr presennol a benodwyd o dan baragraff (1).
- (3) Ni chaniateir penodi llywodraethwr sy'n athro neu'n athrawes neu'n aelod arall o'r staff yn yr ysgol yn werthuswr i'r pennaeth.
- (4) Caiff yr awdurdod lleol benodi un neu ddau o werthuswyr mewn perthynas â gwerthuso pennaeth.
- (5) Caiff y corff llywodraethu wneud cais ar unrhyw adeg i'r awdurdod lleol am benodi gwerthuswr newydd yn lle gwerthuswr presennol a benodwyd gan yr awdurdod lleol ond rhaid i benodiad o'r fath fod yn ôl disgrisiwn yr awdurdod lleol a rhaid cael esboniad ysgrifenedig ar y rhesymau dros wrthodiad i gyd-fynd ag unrhyw wrthodiad.
- (6) Os pennaeth ysgol sydd â chymeriad crefyddol sy'n cael ei werthuso, caiff yr Awdurdod Esgobaeth benodi gwerthuswr i'r pennaeth.

Y cylch gwerthuso

8. – (1) Yn ddarostyngedig i'r darpariaethau canlynol yn y rheoliad hwn, ac i reoliad 9, rhaid i'r corff llywodraethu benderfynu amseriad cylch gwerthuso pennaeth yr ysgol.
- (2) Ac eithrio fel y darperir ar ei gyfer ym mharagraff
- (3) a rheoliad 9(3) blwyddyn fydd hyd cylch gwerthuso a bydd hwnnw'n dechrau ar ôl 1 Medi a chyn 31 Rhagfyr oni bai bod yr awdurdod lleol a'r corff llywodraethu'n cytuno fel arall.
- (3) Yn achos cylch gwerthuso cyntaf pennaeth o dan y Rheoliadau hyn sydd yn ei swydd ar y dyddiad y daw'r Rheoliadau hyn i rym, caiff y corff llywodraethu benderfynu y bydd hyd y cylch gwerthuso hwnnw'n gyfnod heblaw blwyddyn ar yr amod nad yw'n dechrau yn gynharach na 1 Ionawr 2012 nac yn diwedd yn hwyrach na 31 Rhagfyr 2012.
- (4) Pan fyddant wedi dechrau, bydd cylchoedd gwerthuso pob pennaeth yn barhaus.
- (5) Ni fydd penodi gwerthuswr newydd yn peri bod cylch gwerthuso pennaeth yn dechrau eto.

Cylch gwerthuso newydd

9. – (1) Os bydd pennaeth yn symud i swydd pennaeth mewn ysgol arall, bydd y cylch gwerthuso yn dechrau eto.
- (2) Pan ddaw athro neu athrawes ysgol (nad yw'n bennaeth) yn bennaeth (yn yr un ysgol ynteu mewn un arall) fel bod rheoliadau 7 i 19 yn gymwys i'r gwerthusiad, bydd amseriad y cylch gwerthuso yn cael ei benderfynu o'r newydd cyn gynted ag y bo'n ymarferol gan y corff llywodraethu o dan reoliad 8(1). Pan fydd cylch gwerthuso pennaeth yn dechrau eto o dan baragraff (1), neu'n cael ei benderfynu o'r newydd o dan baragraff (2), caiff y corff llywodraethu benderfynu y bydd hyd cylch gwerthuso cyntaf y pennaeth yn ei swydd newydd yn gyfnod o lai na blwyddyn.

Y cylch gwerthuso cyntaf

10. Rhaid i'r corff llywodraethu gymryd pob cam rhesymol i sicrhau nad yw cylch gwerthuso cyntaf pennaeth yr ysgol sydd yn ei swydd ar y dyddiad y daw'r Rheoliadau hyn i rym yn dechrau'n hwyrach na 31 Rhagfyr 2012.

Polisi Rheoli Perfformiad yr Ysgol

11. Rhaid i werthusiad y pennaeth fod yn unol â darpariaethau Polisi Rheoli Perfformiad yr Ysgol.

Cynllunio gwerthusiad a phennu amcanion

12. – (1) Cyn y cylch gwerthuso neu ar ddechrau'r cylch gwerthuso, rhaid i'r holl werthuswyr a'r pennaeth gyfarfod er mwyn cynllunio'r gwerthusiad a pharatoi ar ei gyfer a cheisio cytuno ar amcanion y pennaeth y mae'n rhaid iddynt gymryd i ystyriaeth unrhyw dystiolaeth berthnasol y bydd y gwerthuswyr a'r pennaeth yn cytuno arni (neu os na cheir cytundeb, unrhyw dystiolaeth berthnasol y penderfynir arni gan y gwerthuswyr) ond a fydd yn cynnwys yr Wybodaeth am Berfformiad Ysgolion, ac y mae'n rhaid iddynt ymwneud â'r canlynol –
- (a) arwain yr ysgol a'i rheoli;
- (b) disgrifiad swydd y pennaeth;
- (c) unrhyw feini prawf berthnasol ynghylch datblygiad cyflog;
- (ch) unrhyw amcanion berthnasol i'r ysgol gyfan neu i'r tim a bennwyd yng Nghynllun Gwella'r Ysgol;
- (d) safonau proffesiynol penaeithiaid fel y'u pennir gan Weinidogion Cymru o dro i dro; ac (dd) unrhyw flaenoriaethau cenedlaethol ar gyfer gwella ysgolion a bennir gan Weinidogion Cymru o dro i dro.
- (2) Caniateir i amcanion y pennaeth a ddisgrifir ym mharagraff (1) gymryd i ystyriaeth hefyd ddyheadau proffesiynol y pennaeth.
- (3) Bydd amcanion y pennaeth yn gyfryw ag i gyfrannu, o'u cyflawni, at wella cynnydd disgyblion yr ysgol.
- (4) Os na chytunir ar amcanion o dan baragraff (1), rhaid i'r gwerthuswyr nodi'n ysgrifenedig yr amcanion hynny y maent yn credu eu bod yn briodol, a chaiff y pennaeth ychwanegu sylwadau ysgrifenedig.

(5) Rhaid i'r amcanion y cytunir arnynt o dan baragraff (1), neu os nad oes amcanion wedi'u cytuno, yr amcanion sydd wedi'u nodi'n ysgrifenedig o dan baragraff (4), a sylwadau ysgrifenedig y pennaeth, gael eu cofnodi mewn datganiad amcanion ysgrifenedig.

(6) Pan fo'r amcanion wedi'u pennu, rhaid i'r gwerthuswyr a'r pennaeth geisio cytuno ar y cymorth y mae ar y pennaeth ei angen er mwyn bodloni'r amcanion. Os na ellir cytuno, yr awdurdod lleol fydd yn penderfynu ar y cymorth y mae ei angen.

(7) Yn ystod y cylch gwerthuso, rhaid i'r pennaeth gadw cofnod cyfoes o'r canlynol –

- (a) asesiad y pennaeth ei hun o berfformiad yn erbyn yr amcanion a gofnodwyd yn y datganiad amcanion;
- (b) manylion unrhyw weithgareddau datblygu proffesiynol yr ymgwymerwyd â hwy neu gymorth arall a roddwyd a sut mae hynny'n cyfrannu at gyflawni'r amcanion; ac
- (c) manylion unrhyw ffactorau y mae'r pennaeth yn credu eu bod yn effeithio ar y perfformiad yn erbyn yr amcanion a gofnodwyd.

(8) Caiff Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru⁽⁷⁾ wneud cais am gopi o ddatganiad amcanion y pennaeth, ac ar ôl cael cais o'r fath rhaid i gadeirydd y corff llywodraethu roi copi o'r datganiad i'r Arolygiaeth.

Diwygio amcanion

13. – (1) Caniateir i amcanion pennaeth gael eu diwygio gan y gwerthuswyr unrhyw bryd yn ystod y cylch gwerthuso.

(2) Os yw amcanion pennaeth yn cael eu diwygio o dan baragraff (1)—

- (a) rhaid newid y datganiad amcanion i ddangos yr amcan diwygiedig, dyddiad y diwygiad a'r rheswm dros y diwygiad;
- (b) caiff cyfeiriadau yn y Rheoliadau hyn at amcanion y pennaeth eu darllen fel cyfeiriadau at yr amcanion diwygiedig; ac
- (c) caiff cyfeiriadau yn y Rheoliadau hyn at ddatganiad amcanion y pennaeth eu darllen fel cyfeiriadau at y datganiad amcanion diwygiedig.

Monitro cynnydd

14. – (1) ARhaid i'r holl werthuswyr a'r pennaeth mewn cyfarfod a gynhelir o dan reoliad 12(1) geisio cytuno ar y gweithdrefnau ar gyfer monitro perfformiad y pennaeth yn erbyn yr amcanion y cytunir arnynt o dan reoliad 12(1) neu os nad oes amcanion wedi'u cytuno, yr amcanion sydd wedi'u nodi'n ysgrifenedig o dan reoliad 12(4).

(2) Rhaid i'r gwerthuswyr nodi'n ysgrifenedig unrhyw weithdrefnau ar gyfer monitro perfformiad y pennaeth y maent yn credu eu bod yn briodol.

(3) Yn ddarostyngedig i baragraff (4), ni chaniateir i werthuswr gael gwybodaeth, yn ysgrifenedig ynteu ar lafar, sy'n berthnasol i berfformiad y pennaeth gan neb arall oni bai bod y pennaeth yn cydsynio neu fod yr wybodaeth wedi'i chael yn unol â'r gweithdrefnau y cytunir arnynt o dan baragraff (1) neu os nad oes gweithdrefnau wedi'u cytuno, y gweithdrefnau sydd wedi'u nodi'n ysgrifenedig o dan baragraff (2).

(4) Nid yw paragraff (3) yn gymwys i unrhyw wybodaeth y mae gan werthuswr hawl i'w chael o dan unrhyw ddarpariaeth arall yn y Rheoliadau hyn.

Yr adolygiad gwerthuso a'r datganiad gwerthuso

15. – (1) Ar ddiwedd y cylch gwerthuso neu yn agos i ddiwedd y cylch gwerthuso rhaid i'r holl werthuswyr a'r pennaeth gynnal adolygiad gwerthuso, er mwyn –

- (a) penderfynu a oes perfformiad cyffredinol llwyddiannus wedi bod o'i ystyried yn erbyn safonau proffesiynol penaethiaid a bennir gan Weinidogion Cymru o dro i dro;
- (b) asesu i ba raddau y mae'r pennaeth wedi bodloni'r amcanion a gofnodwyd yn y datganiad amcanion fel y'i nodir yn rheoliad 12(1), gan gymryd i ystyriaeth dystiolaeth berthnasol a gasglwyd drwy'r broses fonitro a nodir yn rheoliad 14 a'r cofnod a gadwyd gan y pennaeth yn unol â rheoliad 12(7); ac
- (c) nodi'r angen am gymorth, hyfforddiant neu ddatblygiad ychwanegol a sut y gallai'r anghenion hynny gael eu diwallu, gan gymryd i ystyriaeth y cofnod a ddisgrifir yn rheoliad 12(7).

(2) Rhaid i'r dyddiad y mae adolygiad gwerthuso i gael ei gynnal gael ei benderfynu gan y gwerthuswyr, ond rhaid rhoi o leiaf 10 diwrnod ysgol o rybudd (mewn ysgrifen) i'r pennaeth am y dyddiad hwnnw.

(3) O leiaf pum diwrnod ysgol cyn yr adolygiad gwerthuso, rhaid i'r pennaeth gyflwyno i'r gwerthuswyr y cofnod a gadwyd o dan reoliad 12(7) a rhaid i'r cofnod gael ei ystyried yn yr adolygiad gwerthuso.

(4) Cyn pen 10 diwrnod ysgol ar ôl pob adolygiad gwerthuso rhaid i'r holl werthuswyr baratoi datganiad ysgrifenedig yn cofnodi'r prif bwyntiau a wnaed gan y gwerthuswyr a'r pennaeth yn yr adolygiad a'r casgliadau y daethpwyd iddynt, a rhaid cofnodi mewn atodiad i'r datganiad (sef atodiad a fydd yn rhan o'r datganiad) yr anghenion hyfforddi a datblygu a ffyrdd o ddiwallu'r anghenion hynny a nodwyd yn yr adolygiad.

(5) Caniateir i adolygiad gwerthuso o dan baragraff (1) gael ei gyfuno â chyfarfod o dan reoliad 12 mewn perthynas â'r cylch gwerthuso canlynol.

(6) Rhaid i'r gwerthuswyr roi copi o'r datganiad a baratoir o dan baragraff (4) i'r pennaeth cyn pen 10 diwrnod ysgol ar ôl yr adolygiad gwerthuso.

(7) Caiff y pennaeth, cyn pen 10 diwrnod ysgol ar ôl cael copi o'r datganiad hwnnw, ychwanegu sylwadau ysgrifenedig ato, a bydd y sylwadau hynny yn rhan o'r datganiad a baratoir o dan y paragraff hwnnw.

(7) A elwir yn gyffredin "Estyn".

Apelio

16. – (1) Mae gan bennaeth hawl i apelio yn erbyn gwerthusiad o dan y Rheoliadau hyn cyn pen 10 diwrnod ysgol ar ôl cael copi o ddatganiad gwerthuso o dan reoliad 15(6).
- (2) Rhaid i apel gael ei gwneud yn ysgrifenedig i'r corff llywodraethu.
- (3) O ran ysgol ac eithrio un sydd â chymeriad crefyddol, cadeirydd y corff llywodraethu fydd un o'r swyddogion apel mewn perthynas ag apel o'r fath, ond os yw cadeirydd y corff llywodraethu wedi cymryd rhan yn y gwerthusiad sy'n destun yr apel, bydd y corff llywodraethu'n penodi llywodraethwr nad yw wedi cymryd rhan yn y gwerthusiad hwnnw yn swyddog apel mewn perthynas ag apel o'r fath yn lle cadeirydd y corff llywodraethu. Bydd y corff llywodraethu hefyd yn penodi llywodraethwr arall na chymerodd ran yn y gwerthusiad hwnnw yn swyddog apel mewn perthynas ag apel o'r fath.
- (4) Ni chaniateir penodi llywodraethwr sy'n athro neu'n athrawes neu'n aelod arall o staff yr ysgol yn swyddog apel ar gyfer pennaeth yr ysgol.
- (5) O ran ysgol ac eithrio un sydd â chymeriad crefyddol, bydd yr awdurdod lleol yn penodi dau o bobl, nad ydynt wedi cymryd rhan yn y gwerthusiad sy'n destun yr apel, yn swyddogion apel mewn perthynas ag apel o'r fath.
- (6) Yn achos ysgol sydd â chymeriad crefyddol, bydd y corff llywodraethu'n penodi un llywodraethwr yn swyddog apel mewn perthynas ag apel o'r fath, a'r llywodraethwr hwnnw fydd cadeirydd y corff llywodraethu, ond os yw cadeirydd y corff llywodraethu wedi cymryd rhan yn y gwerthusiad sy'n destun yr apel, bydd y corff llywodraethu'n penodi llywodraethwr nad yw wedi cymryd rhan yn y gwerthusiad hwnnw yn swyddog apel mewn perthynas ag apel o'r fath yn lle cadeirydd y corff llywodraethu. Bydd yr awdurdod lleol yn penodi dau swyddog apel a'r Awdurdod Esgobaeth yn penodi un swyddog apel, ac ni chaiff yr un o'r swyddogion apel hynny fod wedi cymryd rhan yn y gwerthusiad sy'n destun yr apel.
- (7) Rhaid i'r swyddogion apel gynnal a chwblhau adolygiad o'r gwerthusiad cyn pen 10 diwrnod ysgol ar ôl cael y datganiad gwerthuso o dan reoliad 17(3), ac wrth wneud hynny rhaid iddynt gymryd unrhyw sylwadau a wneir gan y pennaeth i ystyriaeth.
- (8) Caiff y swyddogion apel –
- (a) gorchymyn bod y datganiad gwerthuso yn sefyll gyda sylwadau'r swyddogion apel neu hebddynt; neu
- (b) diwygio'r datganiad gwerthuso gyda chytundeb yr holl werthuswyr; neu
- (c) gorchymyn bod y datganiad gwerthuso yn cael ei ddileu a gorchymyn gwerthusiad newydd.
- (9) Pan fydd gwerthusiad newydd yn cael ei orchymyn o dan baragraff (8)(c) rhaid i'r holl werthuswyr gael eu disodli gan werthuswyr newydd a benodir yn unol â rheoliad 7 a rhaid i'r swyddogion apel benderfynu pa weithdrefnau gwerthuso y mae'n rhaid eu hailadrodd.
- (10) Rhaid cwblhau pob gweithdrefn werthuso y penderfynir ei hailadrodd o dan baragraff (9) cyn pen 15 diwrnod ysgol ar ôl dyddiad gorchymyn y swyddogion apel o dan baragraff (8)(c).
- (11) Ni chaniateir i swyddogion apel –
- (a) penderfynu bod amcanion newydd i gael eu cytuno neu eu pennu yn unol â rheoliad 12; na
- (b) penderfynu bod yr amcanion y cytunwyd arnynt neu a bennwyd o dan reoliad 12 i gael eu diwygio.
- (12) Mae'r cyfeiriadau yn y rheoliad hwn ac yn rheoliadau 17 ac 18 at ddatganiad gwerthuso yn gyfeiriadau at ddatganiad a baratoir o dan reoliad 15(4), gan gynnwys, yn achos rheoliadau 17 ac 18, unrhyw sylwadau a ychwanegir gan y swyddogion apel o dan baragraff (8)(a).

Darparu datganiadau gwerthuso a'u cadw

17. – (1) Rhaid i'r gwerthuswyr roi copi o'r datganiad gwerthuso i'r canlynol—
- (a) y pennaeth;
- (b) cadeirydd y corff llywodraethu;
- (c) y Prif Swyddog Addysg;
- (ch) unrhyw lywodraethwyr sy'n gyfrifol am gynghori ynghylch dyrchafu, disgyblu neu ddiswyddo athrawon ysgol neu ynghylch arfer unrhyw ddisgresiwn mewn perthynas â thâl neu am wneud penderfyniadau mewn perthynas â hynny, os gwneir cais gan y llywodraethwyr hynny; a
- (d) yn achos pennaeth ysgol nad oes ganddi gyllideb ddirprwyedig (o fewn ystyr Pennod IV o Ran II o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998), unrhyw swyddog neu gynghorydd a ddynodir yn benodol gan y Prif Swyddog Addysg i fod yn gyfrifol am gynghori ynghylch arfer unrhyw ddisgresiwn mewn perthynas â thâl neu am wneud penderfyniadau mewn perthynas â hynny, os gwneir cais gan y swyddog neu'r cynghorydd hwnnw.
- (2) Rhaid i gadeirydd y corff llywodraethu roi copi o'r datganiad gwerthuso i unrhyw swyddog neu gynghorydd a ddynodir yn benodol gan y Prif Swyddog Addysg i fod yn gyfrifol am gynghori am berfformiad penaethiaid yn unol â rheoliad 6 o Reoliadau Staffio Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2006(8), neu am wneud penderfyniadau mewn perthynas â hynny, ar ôl cael cais gan y swyddog neu'r cynghorydd hwnnw.
- (3) Rhaid i gadeirydd y corff llywodraethu roi copi o'r datganiad gwerthuso a'r datganiad amcanion i unrhyw swyddog apel cyn pen pum diwrnod ysgol ar ôl i'r corff llywodraethu gael hysbysiad apel o dan reoliad 16(2).
- (4) Pan fydd gwerthuswr newydd yn cael ei benodi heblaw ar ddechrau cylch gwerthuso, rhaid i gadeirydd y corff llywodraethu roi copi o unrhyw ddatganiad amcanion cyfredol i'r person hwnnw.
- (5) Rhaid i gadeirydd y corff llywodraethu roi copi o'r atodiad i'r datganiad gwerthuso y cyfeirir ato yn rheoliad 15(4) i'r person neu'r personau sy'n gyfrifol am gynllunio hyfforddiant a datblygiad y pennaeth yn yr ysgol.

(6) Rhaid i bennaeth gadw copi o ddatganiad gwerthuso am o leiaf dair blynedd ar ôl i'r datganiad gwerthuso nesaf gael ei gwblhau.

(7) Rhaid i'r corff llywodraethu gadw copi o ddatganiad gwerthuso'r pennaeth am o leiaf dair blynedd ar ôl i'r datganiad gwerthuso nesaf gael ei gwblhau.

Gwybodaeth o ddatganiadau gwerthuso

18. – (1) Caniateir i wybodaeth berthnasol o ddatganiadau gwerthuso gael ei chymryd i ystyriaeth gan gyrff llywodraethu ysgolion (gan gynnwys pwyllgorau cyrff llywodraethu), Prif Swyddogion Addysg neu unrhyw swyddogion neu gynghorwyr a ddynodir yn benodol gan Brif Swyddog Addysg o dan reoliad 17(1)(d) neu (2) wrth iddynt wneud penderfyniadau, ac wrth iddynt gynghori'r rhai sy'n gyfrifol am wneud penderfyniadau, ynghylch dyrchafu, diswyddo neu ddisgyblu penaethiaid neu ynghylch arfer unrhyw ddisgresiwn mewn perthynas â thâl.

(2) Ni fydd gweithdrefnau gwerthuso mewn perthynas â phennaeth fel y'u disgrifir yn y Rheoliadau hyn yn ffurfio unrhyw gamau y mae'n rhaid eu cymryd mewn gweithdrefnau disgyblu neu ddiswyddo a ddygir yn erbyn pennaeth.

Darpariaeth drosiannol

19. Mae rheoliadau 17 ac 18 yn gymwys mewn perthynas â chofnodion gwerthuso a gafodd eu cynhyrchu a'u cadw o dan Reoliadau Addysg (Gwerthuso Athrawon Ysgol) (Cymru) 1999(9) neu o dan Reoliadau Gwerthuso Athrawon Ysgol (Cymru) 2002 fel y maent yn gymwys mewn perthynas â datganiadau gwerthuso.

RHAN III

GWERTHUSO ATHRAWON YSGOL HEBLAW PENAEITHIAID

Cymhwyso Rhan III

20. Mae rheoliadau 21 i 33 yn gymwys i werthuso athrawon ysgol heblaw penaethiaid.

Penodi gwerthuswyr ar gyfer athrawon ysgol

21. – (1) Yn ddarostyngedig i reoliad 30(8) rhaid i'r pennaeth benodi yn werthuswr ar gyfer pob athro ac athrawes ysgol yn yr ysgol, athro neu athrawes ysgol yn yr ysgol neu'r pennaeth.

(2) Caiff y pennaeth benodi gwerthuswr newydd yn lle gwerthuswr presennol ar unrhyw adeg.

Y cylch gwerthuso

22. – (1) Yn ddarostyngedig i'r darpariaethau canlynol yn y rheoliad hwn, ac i reoliad 23, rhaid i'r pennaeth benderfynu amseriad cylch gwerthuso pob athro ac athrawes ysgol yn yr ysgol.

(2) Ac eithrio fel y darperir ar ei gyfer ym mharagraffau (3), (4) a (5) a rheoliad 23(3), blwyddyn fydd hyd cylch gwerthuso.

(3) Yn achos athro neu athrawes ysgol a gyflogir o dan gontract cyflogaeth am gyfnod penodol o lai na blwyddyn, hyd y cyfnod penodol yw hyd y cylch gwerthuso.

(4) Yn achos cylch gwerthuso cyntaf athro neu athrawes ysgol o dan y Rheoliadau hyn sydd yn ei swydd ar y dyddiad y daw'r Rheoliadau hyn i rym, caiff y pennaeth benderfynu y bydd hyd y cylch gwerthuso yn gyfnod heblaw blwyddyn ar yr amod nad yw'n dod i ben yn hwyrach na 31 Rhagfyr 2012.

(5) Yn achos cylch gwerthuso cyntaf athro neu athrawes ysgol o dan y Rheoliadau hyn nad yw yn ei swydd ar y dyddiad y daw'r Rheoliadau hyn i rym, caiff y pennaeth benderfynu y bydd hyd y cylch yn gyfnod o lai na blwyddyn.

(6) Yn achos athro neu athrawes ysgol mewn ysgol feithrin a gynhelir sydd yn ei swydd ar y dyddiad perthnasol, caiff y pennaeth benderfynu bod hyd y cylch gwerthuso cyntaf yn gyfnod heblaw blwyddyn ar yr amod nad yw'n dod i ben yn hwyrach na 31 Rhagfyr 2012.

(7) Yn achos athro neu athrawes ysgol a gyflogir o dan gontract cyflogaeth am gyfnod penodol o lai na blwyddyn (ond nad yw'n gontract cyfnod byr) sydd yn ei swydd ar y dyddiad perthnasol, rhaid i'r perfformiad gael ei werthuso drwy gydol y cyfnod o'r contract sydd heb ddod i ben fel y mae ar y dyddiad perthnasol a'i adolygu ar ddiwedd y cyfnod penodol.

(8) Pan fyddant wedi dechrau, bydd cylchoedd gwerthuso pob athro ac athrawes ysgol yn barhaus.

(9) Ni fydd penodi gwerthuswr newydd yn peri bod cylch gwerthuso athro neu athrawes ysgol yn dechrau eto.

Cylch gwerthuso newydd

23. – (1) Os bydd athro neu athrawes ysgol yn symud i swydd athro neu athrawes ysgol mewn ysgol arall, bydd y cylch gwerthuso yn dechrau eto.

(2) Os bydd athro neu athrawes ysgol yn symud i swydd newydd fel athro neu athrawes ysgol yn yr un ysgol, caiff y pennaeth benderfynu y bydd y cylch gwerthuso yn dechrau eto.

(3) Pan fydd cylch gwerthuso athro neu athrawes ysgol yn dechrau eto o dan baragraff (1) neu (2), caiff y pennaeth benderfynu y bydd hyd cylch gwerthuso cyntaf yr athro neu'r athrawes ysgol yn y swydd newydd yn gyfnod o lai na blwyddyn.

Y cylch gwerthuso cyntaf

24. Rhaid i'r corff llywodraethu gymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod cylch gwerthuso cyntaf pob athro ac athrawes ysgol yn yr ysgol sydd yn ei swydd ar y dyddiad y daw'r Rheoliadau hyn i rym yn dechrau erbyn 31 Rhagfyr 2012 fan bellaf.

Polisi Rheoli Perfformiad yr Ysgol

25. Rhaid i werthusiad athrawon ysgol mewn ysgol fod yn unol â darpariaethau Polisi Rheoli Perfformiad yr Ysgol.

Cynllunio gwerthusiad a phennu amcanion

26. – (1) Cyn y cylch gwerthuso neu ar ddechrau'r cylch gwerthuso, rhaid i'r gwerthuswr a'r athro neu'r athrawes ysgol gyfarfod er mwyn cynllunio'r gwerthusiad a pharatoi ar ei gyfer a cheisio cytuno ar amcanion yr athro neu'r athrawes ysgol y mae'n rhaid iddynt gymryd i ystyriaeth unrhyw dystiolaeth berthnasol y bydd y gwerthuswr a'r athro neu'r athrawes ysgol yn cytuno arni (neu os na cheir cytundeb, unrhyw dystiolaeth berthnasol y penderfynir arni gan y gwerthuswr) ond a fydd yn cynnwys yr Wybodaeth am Berfformiad Disgyblion, ac y mae'n rhaid iddynt ymwneud â'r canlynol –
- (a) datblygu a gwella arferion proffesiynol yr athro neu'r athrawes ysgol;
 - (b) disgrifiad swydd yr athro neu'r athrawes ysgol;
 - (c) unrhyw feini prawf perthnasol ynghylch datblygiad cyflog;
 - (ch) unrhyw amcanion perthnasol i'r ysgol gyfan neu i'r tîm a bennwyd yng Nghynllun Gwella'r Ysgol; a
 - (d) safonau proffesiynol athrawon ysgol fel y'u pennir gan Weinidogion Cymru o dro i dro.
- (2) Caniateir i amcanion yr athro neu'r athrawes ysgol a ddisgrifir ym mharagraff (1) gymryd i ystyriaeth hefyd –
- (a) dyheadau proffesiynol yr athro neu'r athrawes ysgol; a
 - (b) unrhyw flaenoriaethau cenedlaethol ar gyfer gwella ysgolion a bennir gan Weinidogion Cymru o dro i dro.
- (3) Bydd amcanion yr athro neu'r athrawes ysgol yn gyfryw ag i gyfrannu, o'u cyflawni, at wella cynnydd disgyblion yr ysgol.
- (4) Os na chytunir ar amcanion o dan baragraff (1), rhaid i'r gwerthuswr nodi'n ysgrifenedig yr amcanion hynny y mae'n credu eu bod yn briodol, a chaiff yr athro neu'r athrawes ysgol ychwanegu sylwadau ysgrifenedig.
- (5) Rhaid i'r amcanion y cytunir arnynt o dan baragraff (1), neu os nad oes amcanion wedi'u cytuno, yr amcanion sydd wedi'u nodi'n ysgrifenedig o dan baragraff (4), a sylwadau ysgrifenedig yr athro neu'r athrawes ysgol, gael eu cofnodi mewn datganiad amcanion ysgrifenedig.
- (6) Pan fo'r amcanion wedi'u pennu, rhaid i'r gwerthuswr a'r athro neu'r athrawes ysgol geisio cytuno ar y cymorth y mae ar yr athro neu'r athrawes ysgol ei angen er mwyn bodloni'r amcanion. Os na ellir cytuno, y gwerthuswr fydd yn penderfynu ar y cymorth y mae ei angen.
- (7) Yn ystod y cylch gwerthuso, rhaid i'r athro neu'r athrawes ysgol gadw cofnod cyfoes o'r canlynol –
- (a) asesiad yr athro neu'r athrawes ysgol ei hun o berfformiad yn erbyn yr amcanion a gofnodwyd yn y datganiad amcanion;
 - (b) manylion unrhyw weithgareddau datblygu proffesiynol yr ymgwymerwyd â hwy neu gymorth arall a roddwyd a sut mae hynny'n cyfrannu at gyflawni'r amcanion; ac
 - (c) manylion unrhyw ffactorau y mae'r athro neu'r athrawes ysgol yn credu eu bod yn effeithio ar y perfformiad yn erbyn yr amcanion a gofnodwyd.

Diwygio amcanion

27. – (1) Caniateir i amcanion athro neu athrawes ysgol gael eu diwygio gan y gwerthuswr unrhyw bryd yn ystod y cylch gwerthuso.
- (2) Os yw amcanion athro neu athrawes ysgol yn cael eu diwygio o dan baragraff (1)—
- (a) rhaid newid y datganiad amcanion i ddangos yr amcan diwygiedig, dyddiad y diwygiad a'r rheswm dros y diwygiad;
 - (b) caiff cyfeiriadau yn y Rheoliadau hyn at amcanion yr athro neu'r athrawes ysgol eu darllen fel cyfeiriadau at yr amcanion diwygiedig; ac
 - (c) caiff cyfeiriadau yn y Rheoliadau hyn at ddatganiad amcanion yr athro neu'r athrawes ysgol eu darllen fel cyfeiriadau at y datganiad amcanion diwygiedig.

Monitro cynnydd

28. – (1) Rhaid i'r gwerthuswr a'r athro neu'r athrawes ysgol mewn cyfarfod a gynhelir o dan reoliad 26(1) geisio cytuno ar y gweithdrefnau ar gyfer monitro perfformiad yr athro neu'r athrawes ysgol yn erbyn yr amcanion y cytunir arnynt o dan reoliad 26(1) neu os nad oes amcanion wedi'u cytuno, yr amcanion sydd wedi'u nodi'n ysgrifenedig o dan reoliad 26(5).
- (2) Os na chytunir ar weithdrefnau o dan baragraff (1), rhaid i'r gwerthuswr nodi'n ysgrifenedig unrhyw weithdrefnau ar gyfer monitro perfformiad yr athro neu'r athrawes ysgol y mae'n credu eu bod yn briodol.
- (3) Rhaid i'r gweithdrefnau y cytunir arnynt o dan baragraff (1), neu lle nad oes gweithdrefnau wedi'u cytuno, y gweithdrefnau a nodwyd yn ysgrifenedig o dan baragraff (2) gynnwys gofyniad bod rhaid i'r gwerthuswr wrth iddo werthuso athro neu athrawes ysgol arsylwi ar yr athro neu'r athrawes ysgol yn addysgu o leiaf unwaith yn ystod y cylch gwerthuso.
- (4) Yn ddarostyngedig i baragraff (5), ni chaniateir i werthuswr gael gwybodaeth, yn ysgrifenedig ynteu ar lafar, sy'n berthnasol i berfformiad yr athro neu'r athrawes ysgol gan neb arall oni bai bod yr athro neu'r athrawes ysgol yn cydsynio neu fod yr wybodaeth wedi'i chael yn unol â'r gweithdrefnau y cytunir arnynt o dan baragraff (1) neu os nad oes gweithdrefnau wedi'u cytuno, y gweithdrefnau sydd wedi'u nodi'n ysgrifenedig o dan baragraff (2).
- (5) Nid yw paragraff (4) yn gynnwys i unrhyw wybodaeth y mae gan werthuswr hawl i'w chael o dan unrhyw ddarpariaeth arall yn y Rheoliadau hyn.

Yr adolygiad gwerthuso a'r datganiad gwerthuso

- 29.** – (1) Ar ddiwedd y cylch gwerthuso neu yn agos i ddiwedd y cylch gwerthuso rhaid i'r gwerthuswr a'r athro neu'r athrawes ysgol gynnal adolygiad gwerthuso, er mwyn –
- (a) asesu i ba raddau y mae'r athro neu'r athrawes ysgol wedi bodloni'r amcanion a gofnodwyd yn y datganiad amcanion fel y'i nodir yn rheoliad 26(1), gan gymryd i ystyriaeth y cofnod y mae'n rhaid i'r athro neu'r athrawes ysgol ei gadw yn unol â rheoliad 26(7);
 - (b) penderfynu a oes perfformiad cyffredinol llwyddiannus wedi bod o'i ystyried yn erbyn safonau proffesiynol athrawon ysgol a bennir gan Weinidogion Cymru o dro i dro; ac
 - (c) nodi'r angen am gymorth, hyfforddiant neu ddatblygiad ychwanegol a ffyrdd o ddiwallu'r anghenion hynny, gan gymryd i ystyriaeth hefyd y cofnod a ddisgrifir yn rheoliad 26(7).
- (2) Bydd y dyddiad y mae adolygiad gwerthuso i gael ei gynnal yn cael ei benderfynu gan y gwerthuswr, ond rhaid rhoi o leiaf 10 diwrnod ysgol o rybudd (mewn ysgrifen) i'r athro neu'r athrawes ysgol am y dyddiad hwnnw.
- (3) O leiaf pum diwrnod ysgol cyn yr adolygiad gwerthuso, rhaid i'r athro neu'r athrawes ysgol gyflwyno i'r gwerthuswr y cofnod a gadwyd o dan reoliad 26(7) a rhaid i'r cofnod gael ei ystyried yn yr adolygiad gwerthuso.
- (4) Cyn pen 10 diwrnod ysgol ar ôl pob adolygiad gwerthuso rhaid i'r gwerthuswr baratoi datganiad ysgrifenedig yn cofnodi'r prif bwyntiau a wnaed gan y gwerthuswr a'r athro neu'r athrawes ysgol yn yr adolygiad a'r casgliadau y daethpwyd iddynt, a rhaid cofnodi mewn atodiad i'r datganiad (sef atodiad a fydd yn rhan o'r datganiad) yr anghenion hyfforddi a datblygu a ffyrdd o ddiwallu'r anghenion hynny a nodwyd yn yr adolygiad.
- (5) Caniateir i'r adolygiad gwerthuso o dan baragraff (1) gael ei gyfuno â chyfarfod o dan reoliad 26 mewn perthynas â'r cylch gwerthuso canlynol.
- (6) Rhaid i'r gwerthuswr roi copi o'r datganiad a baratoir o dan baragraff (4) i'r athro neu'r athrawes ysgol cyn pen 10 diwrnod ysgol ar ôl yr adolygiad gwerthuso.
- (7) Caiff yr athro neu'r athrawes ysgol, cyn pen 10 diwrnod ysgol ar ôl cael copi o'r datganiad hwnnw, ychwanegu sylwadau ysgrifenedig ato, a bydd y sylwadau hynny yn rhan o'r datganiad a baratoir o dan y paragraff hwnnw.

Apelio

- 30.** – (1) Mae gan athro neu athrawes ysgol hawl i apelio yn erbyn gwerthusiad o dan y Rheoliadau hyn cyn pen 10 diwrnod ysgol ar ôl cael copi o ddatganiad gwerthuso o dan reoliad 29(6).
- (2) Rhaid i apêl gael ei gwneud yn ysgrifenedig i'r corff llywodraethu.
- (3) Y pennaeth fydd y swyddog apêl mewn perthynas ag apêl o'r fath, ac eithrio os y pennaeth yw'r gwerthuswr, a'r pryd hynny cadeirydd y corff llywodraethu fydd y swyddog apêl.
- (4) Os cadeirydd y corff llywodraethu yw'r swyddog apêl, rhaid i'r awdurdod lleol benodi cynrychiolydd i gynorthwyo'r swyddog apêl.
- (5) Rhaid i'r swyddog apêl gynnal a chwblhau adolygiad o'r gwerthusiad cyn pen 10 diwrnod ysgol ar ôl cael y datganiad gwerthuso o dan reoliad 31(2)(b), a rhaid iddo gymryd unrhyw sylwadau a wneir gan yr athro neu'r athrawes ysgol i ystyriaeth.
- (6) Caiff y swyddog apêl –
- (a) gorchymyn bod y datganiad gwerthuso yn sefyll gyda sylwadau'r swyddog apêl neu hebddynt; neu
 - (b) diwygio'r datganiad gwerthuso gyda chytundeb y gwerthuswr; neu
 - (c) gorchymyn bod y datganiad gwerthuso yn cael ei ddileu a gorchymyn gwerthusiad newydd.
- (7) Pan fydd gwerthusiad newydd yn cael ei orchymyn o dan baragraff (6)(c) rhaid penodi gwerthuswr newydd yn unol â rheoliad 21 a rhaid i'r swyddog apêl benderfynu pa weithdrefnau gwerthuso y mae'n rhaid eu hailadrodd.
- (8) Os yw'n ymddangos i'r swyddog apêl nad oes gwerthuswr addas newydd a all gael ei benodi i'r athro neu'r athrawes ysgol o dan reoliad 21, rhaid i'r swyddog apêl benodi aelod o gorff llywodraethu'r ysgol yn werthuswr newydd i'r athro neu'r athrawes ysgol.
- (9) Ni chaniateir penodi llywodraethwr sy'n athro neu'n athrawes neu'n aelod arall o staff yr ysgol yn werthuswr i athro neu athrawes ysgol o dan baragraff (8).
- (10) Rhaid cwblhau pob gweithdrefn werthuso y penderfynir ei hailadrodd o dan baragraff (7) cyn pen 15 diwrnod ysgol ar ôl dyddiad gorchymyn y swyddog apêl o dan baragraff (6)(c).
- (11) Ni chaniateir i'r swyddog apêl –
- (a) penderfynu bod amcanion newydd i gael eu cytuno neu eu pennu yn unol â rheoliad 26; na
 - (b) penderfynu bod yr amcanion y cytunwyd arnynt neu a bennwyd o dan reoliad 26 i gael eu diwygio.
- (12) Mae'r cyfeiriadau yn y rheoliad hwn ac yn rheoliadau 31 a 32 at ddatganiad gwerthuso yn gyfeiriadau at ddatganiad a baratoir o dan reoliad 29(4), gan gynnwys, yn achos rheoliadau 31 a 32, unrhyw sylwadau a ychwanegir gan swyddog apêl o dan baragraff (6)(a).

Darparu datganiadau gwerthuso a'u cadw

- 31.** – Rhaid i'r gwerthuswr roi copi o'r datganiad gwerthuso i'r pennaeth.
- (2) Caiff y personau canlynol wneud cais am gopi o'r datganiad gwerthuso a rhaid i'r pennaeth, os gwneir cais o'r fath, drefnu bod copi o'r datganiad gwerthuso ar gael i'r person hwnnw –
- (a) y gwerthuswr;
 - (b) unrhyw swyddog apêl cyn pen pum diwrnod ysgol ar ôl i'r corff llywodraethu gael hysbysiad ynglŷn ag apêl o dan reoliad 30(2), y mae'n rhaid rhoi copi iddo hefyd o'r datganiad amcanion;

- (c) unrhyw lywodraethwyr sy'n gyfrifol am gynghori ynghylch dyrchafu athrawon ysgol neu ynghylch arfer unrhyw ddisgresiwn mewn perthynas â thâl neu am wneud penderfyniadau mewn perthynas â hynny; ac
- (ch) yn achos athro neu athrawes ysgol a gyflogir mewn ysgol nad oes ganddi gyllideb ddirprwyedig (o fewn ystyr Pennod IV o Ran II o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998) y Prif Swyddog Addysg neu unrhyw swyddog neu gynghorydd a ddynodir yn benodol gan y Prif Swyddog Addysg i fod yn gyfrifol am gynghori ynghylch dyrchafu athrawon ysgol neu ynghylch arfer unrhyw ddisgresiwn mewn perthynas â thâl neu am wneud penderfyniadau mewn perthynas â hynny.
- (3) Os yw'r athro neu'r athrawes ysgol yn gymwys ar gyfer datblygiad cyflog o dan y Ddogfen, rhaid i'r gwerthuswr roi argymhelliad ynghylch datblygiad cyflog i'r pennaeth, gan roi sylw i ddatganiad gwerthuso'r athro neu'r athrawes ysgol.
- (4) Rhaid i'r pennaeth roi copi o'r atodiad i'r datganiad gwerthuso y cyfeirir ato yn rheoliad 29(4) i'r person neu'r personau sy'n gyfrifol am gynllunio hyfforddiant a datblygiad yr athrawon ysgol yn yr ysgol.
- (5) Rhaid i'r pennaeth drefnu bod copi o ddatganiad amcanion cyfredol athro neu athrawes ysgol ar gael i werthuswr newydd a benodir heblaw ar ddechrau cylch gwerthuso.
- (6) Rhaid i ddatganiad gwerthuso athro neu athrawes ysgol gael ei gadw gan y pennaeth am o leiaf dair blynedd ar ôl i'r datganiad gwerthuso nesaf gael ei gwblhau.

Gwybodaeth o ddatganiadau gwerthuso

- 32.** – (1) Caniateir i wybodaeth berthnasol o ddatganiadau gwerthuso gael ei chymryd i ystyriaeth gan benaethiaid, cyrff llywodraethu ysgolion (gan gynnwys pwyllgorau cyrff llywodraethu), Prif Swyddogion Addysg neu unrhyw swyddogion neu gynghorwyr a ddynodir yn benodol gan Brif Swyddog Addysg o dan reoliad 31(2)(ch) wrth iddynt wneud penderfyniadau, ac wrth iddynt gynghori'r rhai sy'n gyfrifol am wneud penderfyniadau, ynghylch dyrchafu, diswyddo neu ddisgyblu athrawon ysgol neu ynghylch arfer unrhyw ddisgresiwn mewn perthynas â thâl.
- (2) Ni fydd gweithdrefnau gwerthuso mewn perthynas ag athro neu athrawes ysgol fel y'u disgrifir yn y Rheoliadau hyn yn ffurfio unrhyw gamau y mae'n rhaid eu cymryd mewn gweithdrefnau disgyblu neu ddiswyddo a ddygir yn erbyn yr athro neu'r athrawes ysgol.

Darpariaeth drosiannol

- 33.** Mae rheoliadau 31 a 32 yn gymwys mewn perthynas â chofnodion gwerthuso a gafodd eu cynhyrchu a'u cadw o dan Reoliadau Addysg (Gwerthuso Athrawon Ysgol) (Cymru) 1999 neu o dan Reoliadau Gwerthuso Athrawon Ysgol (Cymru) 2002 fel y maent yn gymwys mewn perthynas â datganiadau gwerthuso.

RHAN IV

Gwerthuso Athrawon Digyswllt

Cymhwyso Rhan IV

- 34.** – (1) Mae rheoliadau 35 i 45 yn gymwys i werthuso athrawon digyswllt.
- (2) Yn y Rhan IV hon mae "ysgol" ("school") yn cynnwys uned cyfeirio disgyblion ac mae cyfeiriadau at bennaeth yn cynnwys cyfeiriad at athro neu athrawes sydd â gofal uned cyfeirio disgyblion.

Y gofyniad ar yr awdurdod i gynhyrchu polisi rheoli perfformiad

- 35.** – (1) Rhaid i'r awdurdod gael polisi ysgrifenedig ("y polisi rheoli perfformiad") sy'n nodi sut y mae gwerthuso athrawon digyswllt i gael ei roi ar waith.
- (2) Rhaid i'r awdurdod adolygu'r polisi rheoli perfformiad bob blwyddyn ysgol.
- (3) Yn sgil adolygiad o'r fath rhaid i'r awdurdod, os yw'n gweld yn dda, ddiwygio'r polisi rheoli perfformiad.
- (4) Cyn sefydlu neu ddiwygio'r polisi rheoli perfformiad rhaid i'r awdurdod ymgynghori â phob un o'i athrawon digyswllt ynghylch ffurfio'r polisi rheoli perfformiad neu ei ddiwygio.
- (5) Rhaid i'r awdurdod roi'r polisi rheoli perfformiad ar waith.
- (6) Rhaid i'r awdurdod drefnu bod copi o'r polisi rheoli perfformiad ar gael i'w archwilio ar unrhyw adeg resymol gan y canlynol:
- (a) unrhyw athro neu athrawes ddigyswllt;
 - (b) unrhyw berson sy'n ymwneud ag arolygu sut y mae'r system gwerthuso athrawon digyswllt yn gweithio;
 - (c) unrhyw werthuswr a benodir yn unol â'r Rheoliadau hyn.

Penodi gwerthuswyr ar gyfer athrawon digyswllt

- 36.** – (1) Yn ddarostyngedig i'r paragraffau canlynol yr awdurdod yw'r gwerthuswr ar gyfer pob athro neu athrawes ddigyswllt.
- (2) Caiff yr awdurdod ddirprwyo rhai neu'r cyfan o'r dyletswyddau a osodir ar werthuswr i athro neu athrawes ysgol yn yr ysgol lle mae'r athro neu'r athrawes ddigyswllt yn treulio prif ran ei amser gwaith neu ei hamser gwaith, neu i unrhyw berson arall y mae'r awdurdod yn credu ei fod yn y sefyllfa orau i reoli ac i adolygu perfformiad yr athro neu'r athrawes ddigyswllt.
- (3) Caiff yr awdurdod benodi gwerthuswr newydd yn lle gwerthuswr presennol ar unrhyw adeg neu caiff gyflawni'r dyletswyddau hynny ei hun.

Y cylch gwerthuso

37. – (1) Yn ddarostyngedig i'r darpariaethau canlynol yn y rheoliad hwn, rhaid i'r awdurdod benderfynu amseriad cylch gwerthuso pob athro ac athrawes ddigyswllt a gyflogir ganddo.
- (2) Ac eithrio fel y darperir ar ei gyfer ym mharagraffau (3), (4) a (5) blwyddyn fydd hyd cylch gwerthuso.
- (3) Yn achos cylch gwerthuso cyntaf athro neu athrawes ddigyswllt o dan y Rheoliadau hyn sydd yn ei swydd ar y dyddiad perthnasol, caiff yr awdurdod benderfynu y bydd hyd y cylch gwerthuso yn gyfnod heblaw blwyddyn.
- (4) Yn achos cylch gwerthuso cyntaf athro neu athrawes ddigyswllt o dan y Rheoliadau hyn sydd heb fod yn ei swydd ar y dyddiad perthnasol, caiff yr awdurdod benderfynu y bydd hyd y cylch gwerthuso cyntaf yn gyfnod o lai na blwyddyn.
- (5) Yn achos athro neu athrawes ddigyswllt a gyflogir o dan gontract cyflogaeth am gyfnod penodol o lai na blwyddyn, rhaid i'r perfformiad gael ei reoli drwy gydol cyfnod y contract a chael ei adolygu ar ddiwedd y cyfnod hwnnw.
- (6) Rhaid i'r awdurdod gymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod cylch gwerthuso cyntaf pob athro ac athrawes ddigyswllt sydd yn ei swydd ar y dyddiad perthnasol yn dechrau erbyn 31 Rhagfyr 2012 fan bellaf.
- (7) Pan fyddant wedi dechrau, bydd cylchoedd gwerthuso pob athro ac athrawes ddigyswllt yn barhaus.
- (8) Ni fydd penodi gwerthuswr newydd yn peri bod cylch gwerthuso athro neu athrawes ddigyswllt yn dechrau eto ac eithrio fel y darperir ar ei gyfer ym mharagraff (9).
- (9) Pan fydd athro neu athrawes ddigyswllt yn trosglwyddo i swydd newydd yn yr awdurdod ran o'r ffordd drwy gylch gwerthuso, rhaid i'r awdurdod benderfynu a fydd y cylch yn dechrau eto ac os felly a ddylid penodi gwerthuswr newydd.

Gweithdrefnau gwerthuso

38. – (1) Yn ddarostyngedig i baragraff (2) ac i reoliadau 39 i 43 rhaid i'r awdurdod benderfynu ar y gweithdrefnau ar gyfer gwerthuso athrawon digyswllt.
- (2) Os yw rhai o ddyletswyddau'r awdurdod neu'r cyfan ohonynt mewn perthynas ag athro neu athrawes ddigyswllt wedi'u dirprwyo i athro neu athrawes yn yr ysgol yn unol â rheoliad 36(2) yna yn ddarostyngedig i reoliadau 39 i 43, rhaid i'r gweithdrefnau ar gyfer gwerthuso'r athro digyswllt hwnnw neu'r athrawes ddigyswllt honno fod yn rhai a benderfynir gan gorff llywodraethu'r ysgol yn unol â rheoliad 25.

Cynllunio gwerthusiad a phennu amcanion

39. – (1) Cyn y cylch gwerthuso neu ar ddechrau'r cylch gwerthuso, rhaid i'r gwerthuswr a'r athro neu'r athrawes ddigyswllt gyfarfod er mwyn cynllunio'r gwerthusiad a pharatoi ar ei gyfer a cheisio cytuno ar amcanion yr athro neu'r athrawes ddigyswllt y mae'n rhaid iddynt gymryd i ystyriaeth unrhyw dystiolaeth berthnasol y bydd y gwerthuswr a'r athro neu'r athrawes ddigyswllt yn cytuno arni (neu os na cheir cytundeb, unrhyw dystiolaeth berthnasol y penderfynir arni gan y gwerthuswr) ond a fydd yn cynnwys yr Wybodaeth am Berfformiad Disgyblion ac y mae'n rhaid iddynt ymwneud â'r canlynol –
- (a) datblygu a gwella arferion proffesiynol yr athro neu'r athrawes ddigyswllt;
- (b) disgrifiad swydd yr athro neu'r athrawes ddigyswllt;
- (c) unrhyw feini prawf perthnasol ynghylch datblygiad cyflog;
- (ch) unrhyw amcanion perthnasol i'r ysgol gyfan neu i'r tîm a bennwyd yng Nghynllun Gwella'r Ysgol; a
- (d) safonau proffesiynol athrawon ysgol fel y'u pennir gan Weinidogion Cymru o dro i dro.
- (2) Caniateir i amcanion yr athro neu'r athrawes ddigyswllt a ddisgrifir ym mharagraff (1) gymryd i ystyriaeth hefyd –
- (a) dyheadau proffesiynol yr athro neu'r athrawes ddigyswllt; a
- (b) unrhyw flaenoriaethau cenedlaethol ar gyfer gwella ysgolion a bennir gan Weinidogion Cymru o dro i dro.
- (3) Bydd amcanion yr athro neu'r athrawes ddigyswllt yn gyfryw ag i gyfrannu, o'u cyflawni, at wella cynnydd disgyblion yr ysgolion lle mae'r athro neu'r athrawes ddigyswllt yn gweithio.
- (4) Os na chytunir ar amcanion o dan baragraff (1), rhaid i'r gwerthuswr nodi'n ysgrifenedig yr amcanion hynny y mae'n credu eu bod yn briodol, a chaiff yr athro neu'r athrawes ddigyswllt ychwanegu sylwadau ysgrifenedig.
- (5) Rhaid i'r amcanion y cytunir arnynt o dan baragraff (1), neu os nad oes amcanion wedi'u cytuno, yr amcanion sydd wedi'u nodi'n ysgrifenedig o dan baragraff (4), a sylwadau ysgrifenedig yr athro neu'r athrawes ddigyswllt, gael eu cofnodi mewn datganiad amcanion ysgrifenedig.
- (6) Pan fo'r amcanion wedi'u pennu, rhaid i'r gwerthuswr a'r athro neu'r athrawes ddigyswllt geisio cytuno ar y cymorth y mae ar yr athro neu'r athrawes ddigyswllt ei angen er mwyn bodloni'r amcanion. Os na ellir cytuno, y gwerthuswr fydd yn penderfynu ar y cymorth y mae ei angen.
- (7) Yn ystod y cylch gwerthuso, rhaid i'r athro neu'r athrawes ddigyswllt gadw cofnod cyfoes o'r canlynol –
- (a) asesiad yr athro neu'r athrawes ddigyswllt ei hun o berfformiad yn erbyn yr amcanion a gofnodwyd yn y datganiad amcanion;
- (b) manylion unrhyw weithgareddau datblygu proffesiynol yr ymgymherwyd â hwy neu gymorth arall a roddwyd a sut y mae hynny'n cyfrannu at gyflawni'r amcanion; ac
- (c) manylion unrhyw ffactorau y mae'r athro neu'r athrawes ddigyswllt yn credu eu bod yn effeithio ar y perfformiad yn erbyn yr amcanion a gofnodwyd.

Diwygio amcanion

40. – (1) Caniateir i amcanion athro neu athrawes ddigyswllt gael eu diwygio gan y gwerthuswr ar unrhyw adeg yn ystod y cylch gwerthuso.
- (2) Os yw amcanion athro neu athrawes ddigyswllt yn cael eu diwygio o dan baragraff (1)—
- (a) rhaid newid y datganiad amcanion i ddangos y diwygiadau;

- (b) caiff cyfeiriadau yn y Rheoliadau hyn at amcanion yr athro neu'r athrawes ddigyswllt eu darllen fel cyfeiriadau at yr amcanion diwygiedig; ac
- (c) caiff cyfeiriadau yn y Rheoliadau hyn at ddatganiad amcanion yr athro neu'r athrawes ddigyswllt eu darllen fel cyfeiriadau at y datganiad amcanion diwygiedig.

Monitro cynnydd

- 41.** – (1) Rhaid i'r gwerthuswr a'r athro neu'r athrawes ddigyswllt mewn cyfarfod a gynhelir o dan reoliad 39 geisio cytuno ar y gweithdrefnau ar gyfer monitro perfformiad yr athro neu'r athrawes ddigyswllt yn erbyn yr amcanion y cytunir arnynt o dan reoliad 39(1) neu os nad oes amcanion wedi'u cytuno, yr amcanion sydd wedi'u nodi'n ysgrifenedig o dan reoliad 39(4).
- (2) Os na chytunir ar weithdrefnau o dan baragraff (1), rhaid i'r gwerthuswr nodi'n ysgrifenedig y gweithdrefnau hynny ar gyfer monitro perfformiad yr athro neu'r athrawes ddigyswllt y mae'n credu eu bod yn briodol.
- (3) Rhaid i'r gweithdrefnau p'un a ydynt wedi'u cytuno o dan baragraff (1) ynteu wedi'u nodi'n ysgrifenedig o dan baragraff (2) gynnwys:
- (a) gofyniad bod y gwerthuswr wrth werthuso'r athro neu'r athrawes ddigyswllt yn arsylwi ar yr athro neu'r athrawes ddigyswllt yn addysgu o leiaf unwaith yn ystod y cylch gwerthuso;
 - (b) gofyniad bod y gwerthuswr yn ceisio gwybodaeth gan y rhai sydd â gwybodaeth broffesiynol berthnasol am yr athro neu'r athrawes ddigyswllt mewn mannau eraill lle mae'r athro neu'r athrawes ddigyswllt yn treulio rhan o'i amser gwaith neu ei hamser gwaith yn rheolaidd.
- (4) Yn ddarostyngedig i baragraffau (3) a (5) ni chaiff gwerthuswr gael gwybodaeth, yn ysgrifenedig ynteu ar lafar, sy'n berthnasol i berfformiad yr athro neu'r athrawes ddigyswllt gan neb arall oni bai bod yr athro neu'r athrawes ddigyswllt yn cydsynio neu fod yr wybodaeth wedi'i chael yn unol â'r gweithdrefnau y cytunir arnynt o dan baragraff (1), neu os nad oes gweithdrefnau wedi'u cytuno, y gweithdrefnau sydd wedi'u nodi'n ysgrifenedig o dan baragraff (2).
- (5) Nid yw paragraff (4) yn gymwys i unrhyw wybodaeth y mae gan werthuswr hawl i'w chael o dan unrhyw ddarpariaeth arall yn y Rheoliadau hyn.

Yr adolygiad gwerthuso a'r datganiad gwerthuso

- 42.** – (1) Ar ddiwedd y cylch gwerthuso neu yn agos i ddiwedd y cylch gwerthuso rhaid i'r gwerthuswr a'r athro neu'r athrawes ddigyswllt gynnal adolygiad gwerthuso, er mwyn –
- (a) asesu i ba raddau y mae'r athro neu'r athrawes ddigyswllt wedi bodloni'r amcanion a gofnodwyd yn y datganiad amcanion fel y'i nodir yn rheoliad 39(1), gan gymryd i ystyriaeth y cofnod y mae'n rhaid i'r athro neu'r athrawes ddigyswllt ei gadw yn unol â rheoliad 39(7);
 - (b) penderfynu a oes perfformiad cyffredinol llwyddiannus wedi bod o'i ystyried yn erbyn safonau proffesiynol athrawon ysgol a bennir gan Weinidogion Cymru o dro i dro; ac
 - (c) nodi'r angen am gymorth, hyfforddiant neu ddatblygiad ychwanegol a ffyrdd o ddiwallu'r anghenion hynny, gan gymryd i ystyriaeth hefyd y cofnod a ddisgrifir yn rheoliad 39(7).
- (2) Bydd y dyddiad y mae adolygiad gwerthuso i gael ei gynnal yn cael ei benderfynu gan y gwerthuswr, ond rhaid rhoi o leiaf 10 diwrnod ysgol o rybudd (mewn ysgrif) i'r athro neu'r athrawes ddigyswllt am y dyddiad hwnnw.
- (3) O leiaf pum diwrnod ysgol cyn yr adolygiad gwerthuso, rhaid i'r athro neu'r athrawes ddigyswllt gyflwyno i'r gwerthuswr y cofnod a gadwyd o dan reoliad 39(7) a rhaid i'r cofnod gael ei ystyried yn yr adolygiad gwerthuso.
- (4) Cyn pen 10 diwrnod ysgol ar ôl pob adolygiad gwerthuso, rhaid i'r gwerthuswr baratoi datganiad ysgrifenedig yn cofnodi'r prif bwyntiau a wnaed gan y gwerthuswr a'r athro neu'r athrawes ddigyswllt yn yr adolygiad a'r casgliadau y daethpwyd iddynt, a rhaid cofnodi mewn atodiad i'r datganiad (sef atodiad a fydd yn rhan o'r datganiad) yr anghenion hyfforddi a datblygu a ffyrdd o ddiwallu'r anghenion hynny a nodwyd yn yr adolygiad.
- (5) Caniateir i adolygiad gwerthuso o dan baragraff (1) gael ei gyfuno â chyfarfod o dan reoliad 39 mewn perthynas â'r cylch gwerthuso canlynol.
- (6) Rhaid i'r gwerthuswr roi copi o'r datganiad a baratoir o dan baragraff (4) i'r athro neu'r athrawes ddigyswllt cyn pen 10 diwrnod ysgol ar ôl yr adolygiad gwerthuso.
- (7) Caiff yr athro neu'r athrawes ddigyswllt, cyn pen 10 diwrnod ysgol ar ôl cael copi o'r datganiad hwnnw, ychwanegu sylwadau ysgrifenedig ato, a bydd y sylwadau hynny yn rhan o'r datganiad gwerthuso.
- (8) Os nad yr awdurdod yw'r gwerthuswr, rhaid i'r gwerthuswr anfon copi o'r datganiad gwerthuso i'r awdurdod ac at bennaeth unrhyw ysgol lle mae'r athro neu'r athrawes ddigyswllt yn treulio rhan o'i amser gwaith neu o'i hamser gwaith yn rheolaidd.
- (9) Os yr awdurdod yw'r gwerthuswr, rhaid i'r awdurdod anfon copi o'r datganiad gwerthuso at bennaeth unrhyw ysgol lle mae'r athro neu'r athrawes ddigyswllt yn treulio rhan o'i amser gwaith neu o'i hamser gwaith yn rheolaidd.

Apelio

- 43.** – (1) Mae gan athro neu athrawes ddigyswllt hawl i apelio yn erbyn gwerthusiad o dan y Rheoliadau hyn cyn pen 10 diwrnod ysgol ar ôl cael copi o'r datganiad gwerthuso o dan reoliad 42(6).
- (2) Os athro neu athrawes mewn ysgol yw'r gwerthuswr bydd darpariaethau rheoliad 30(2) i (12) yn gymwys, ac eithrio y bydd cyfeiriadau yn y paragraffau hynny at ddatganiad gwerthuso yn gyfeiriadau at ddatganiad a baratoir o dan reoliad 42(4) gan gynnwys at ddibenion rheoliadau 31 a 32 unrhyw sylwadau a ychwanegwyd gan swyddog apêl o dan baragraff (6)(a) o reoliad 30.
- (3) Os yr awdurdod yw'r gwerthuswr gwneir unrhyw apêl yn ysgrifenedig i'r awdurdod yn unol â'r gweithdrefnau apelio sy'n gymwys i'r holl staff ac eithrio fel y gall fod yn anghyson â'r rheoliad hwn.

(4) Rhaid i'r swyddog apêl gynnal a chwblhau adolygiad o'r gwerthusiad cyn pen 10 diwrnod ysgol ar ôl cael y datganiad gwerthuso o dan reoliad 44(2)(b) a rhaid iddo gymryd unrhyw sylwadau a wneir gan yr athro neu'r athrawes ddigyswllt i ystyriaeth.

(5) Caiff y swyddog apêl –

(a) gorchymyn bod y datganiad gwerthuso yn sefyll gyda sylwadau'r swyddog apêl neu hebddynt; neu

(b) diwygio'r datganiad gwerthuso gyda chytundeb y gwerthuswr; neu

(c) gorchymyn bod y datganiad gwerthuso yn cael ei ddileu a gorchymyn gwerthusiad newydd.

(6) Pan fydd gwerthusiad newydd yn cael ei orchymyn o dan baragraff (5)(c) rhaid penodi gwerthuswr newydd yn unol â rheoliad 36 a rhaid i'r swyddog apêl benderfynu pa weithdrefnau gwerthuso y mae'n rhaid eu hailadrodd.

(7) Os yw'n ymddangos i'r swyddog apêl nad oes athro neu athrawes ysgol mewn ysgol lle mae'r athro neu'r athrawes ddigyswllt yn treulio prif ran ei amser gwaith neu ei hamser gwaith sy'n addas i fod yn werthuswr newydd y gellir ei benodi ar gyfer yr athro neu'r athrawes ddigyswllt, rhaid i'r swyddog apêl benodi fel gwerthuswr newydd ar gyfer yr athro neu'r athrawes ddigyswllt aelod o gorff llywodraethu'r ysgol honno (heblaw llywodraethwr sy'n athro neu'n athrawes neu'n aelod arall o staff) neu unrhyw berson arall sy'n addas i reoli ac i adolygu perfformiad yr athro neu'r athrawes ddigyswllt.

(8) Rhaid cwblhau pob gweithdrefn werthuso y penderfynir ei hailadrodd o dan baragraff (6) cyn pen 15 diwrnod ysgol ar ôl dyddiad gorchymyn y swyddog apêl o dan baragraff (5)(c).

(9) Ni chaniateir i'r swyddog apêl –

(a) penderfynu bod amcanion newydd i gael eu cytuno neu eu pennu; na

(b) penderfynu bod yr amcanion y cytunwyd arnynt neu a bennwyd o dan reoliad 39(1) i gael eu diwygio.

(10) Mae'r cyfeiriadau yn y rheoliad hwn ac yn rheoliadau 44 a 45 at ddatganiad gwerthuso yn gyfeiriadau at ddatganiad a baratoir o dan reoliad 42(4), gan gynnwys, yn achos rheoliadau 44 a 45, unrhyw sylwadau a ychwanegir gan swyddog apêl o dan baragraff (5)(a).

Darparu datganiadau gwerthuso a'u cadw

44. – (1) Rhaid i'r gwerthuswr roi copi o'r datganiad gwerthuso –

(a) i'r pennaeth ymhob ysgol lle mae'r athro neu'r athrawes ddigyswllt yn treulio rhan o'i amser gwaith neu o'i hamser gwaith yn rheolaidd; a

(b) i'r awdurdod.

(2) Caiff y personau canlynol wneud cais am gopi o'r datganiad gwerthuso a rhaid i'r awdurdod, os gwneir cais o'r fath, drefnu bod copi o'r datganiad gwerthuso ar gael i'r person hwnnw –

(a) y gwerthuswr;

(b) unrhyw swyddog apêl cyn pen pum diwrnod ysgol ar ôl i'r awdurdod gael hysbysiad apêl o dan reoliad 43, y mae'n rhaid rhoi copi iddo hefyd o'r datganiad amcanion; ac

(c) y Prif Swyddog Addysg neu unrhyw swyddog neu gynghorydd a ddynodir yn benodol gan y Prif Swyddog Addysg i fod yn gyfrifol am gynghori am ddirchafiad athrawon digyswllt, neu am ddefnyddio unrhyw ddisgresiwn ynghylch cyflog, neu am wneud penderfyniadau mewn perthynas â hynny.

(3) Os yw'r athro neu'r athrawes ddigyswllt yn gymwys ar gyfer datblygiad cyflog o dan y Ddogfen, rhaid i'r gwerthuswr roi argymhelliad ynghylch datblygiad cyflog i'r awdurdod, gan roi sylw i ddatganiad gwerthuso'r athro neu'r athrawes ddigyswllt.

(4) Rhaid i'r awdurdod roi copi o'r atodiad i'r datganiad gwerthuso y cyfeirir ato yn rheoliad 42(4) i'r person neu'r personau sy'n gyfrifol am gynllunio hyfforddiant a datblygiad athrawon ysgol yn unrhyw ysgol lle mae'r athro neu'r athrawes ddigyswllt yn treulio rhan o'i amser gwaith neu o'i hamser gwaith yn rheolaidd.

(5) Rhaid i'r awdurdod drefnu bod datganiad amcanion cyfredol athro neu athrawes ddigyswllt ar gael i werthuswr newydd a benodir heblaw ar ddechrau cylch gwerthuso.

(6) Rhaid i ddatganiad gwerthuso athro neu athrawes ddigyswllt gael ei gadw gan yr awdurdod am o leiaf dair blynedd ar ôl i'r datganiad gwerthuso nesaf gael ei gwblhau.

Gwybodaeth o ddatganiadau gwerthuso

45. – (1) Caniateir i wybodaeth berthnasol o ddatganiadau gwerthuso gael ei chymryd i ystyriaeth gan awdurdod, Prif Swyddogion Addysg neu unrhyw swyddogion neu gynghorwyr a ddynodir yn benodol gan Brif Swyddog Addysg o dan reoliad 44(2)(c) wrth iddynt wneud penderfyniadau, ac wrth iddynt gynghori'r rhai sy'n gyfrifol am wneud penderfyniadau, ynghylch dyrchafu, diswyddo neu ddisgyblu athrawon digyswllt neu ynghylch arfer unrhyw ddisgresiwn mewn perthynas â thâl.

(2) Ni fydd gweithdrefnau gwerthuso mewn perthynas ag athro neu athrawes ddigyswllt fel y'u nodir yn y Rheoliadau hyn yn ffurfio unrhyw gamau y mae'n rhaid eu cymryd mewn gweithdrefnau disgyblu neu ddiswyddo a ddygir yn erbyn athro neu athrawes ddigyswllt.

Darpariaeth drosiannol

46. Mae rheoliadau 44 a 45 yn gymwys mewn perthynas â chofnodion gwerthuso a gafodd eu cynhyrchu a'u cadw o dan Reoliadau Gwerthuso Athrawon Ysgol (Cymru) 2002 fel y maent yn gymwys mewn perthynas â datganiadau gwerthuso.

Diwygio Rheoliadau Llywodraethu Ysgolion (Cylch Gwaith) (Cymru) 2000

47. – (1) Yn rheoliad 2(1) hepgorer y diffiniadau o "athro ysgol", "tymor ysgol" a "contract cyfnod byr".

(2) Ar ddiwedd rheoliad 2(2)(a) mewnosoder "a" ac yn rheoliad 2(2)(b) hepgorer "ac".

- (3) Dileer rheoliad 2(2)(c).
- (4) Dileer rheoliad 10.

Leighton Andrews

Y Gweinidog Addysg a Sgiliau, un o Weinidogion Cymru
6 Rhagfyr 2011

YR ATODLEN

Arbedion a Darpariaethau Trosiannol Cyffredinol

Y Cylch Gwerthuso

1. Os oes pennaeth, athro neu athrawes ysgol neu athro neu athrawes ddigyswllt wedi cwblhau cylch gwerthuso o dan ddarpariaethau Rheoliadau 2002, yna rhaid i unrhyw apel yn erbyn y gwerthusiad gael ei gwneud yn unol â'r gweithdrefnau apel a nodwyd yn Rheoliadau 2002.
2. Os oes pennaeth, athro neu athrawes ysgol neu athro neu athrawes ddigyswllt wedi mynd rhan o'r ffordd drwy gylch gwerthuso o dan Rheoliadau 2002 ar y dyddiad y daw'r Rheoliadau hyn i rym, yna (yn ddarostyngedig i baragraff 3) rhaid i'r cylch gwerthuso hwnnw barhau o dan ddarpariaethau Rheoliadau 2002 hyd nes y bydd cylch gwerthuso newydd yn dechrau o dan y Rheoliadau hyn.
3. Os oes pennaeth, athro neu athrawes ysgol neu athro neu athrawes ddigyswllt wedi cwblhau cylch gwerthuso neu wedi mynd rhan o'r ffordd drwy gylch gwerthuso o dan ddarpariaethau Rheoliadau 2002, caniateir i unrhyw gyfarfod adolygu gwerthusiad mewn perthynas â'r cylch gwerthuso hwnnw sydd i'w gynnal o dan ddarpariaethau Rheoliadau 2002 ar ôl y dyddiad y daw'r Rheoliadau hyn i rym gael ei gynnal gan y gwerthuswr neu'r gwerthuswyr (fel y bo'n briodol) a benodwyd ar gyfer y pennaeth, yr athro neu'r athrawes ysgol neu'r athro neu'r athrawes ddigyswllt o dan ddarpariaethau'r Rheoliadau hyn ("y gwerthuswyr newydd"), os bydd y gwerthuswyr newydd yn dewis gwneud hynny. Caniateir i'r cyfarfod adolygu gwerthusiad hwnnw fod yn ddarostyngedig i ddarpariaethau rheoliadau 15(5), 29(5) a 42(5) (fel y bo'n briodol) yn ôl disgrisiwn y gwerthuswyr newydd.

ATODIAD 2

POLISI RHEOLI PERFFORMIAD ENGHREIFFTOL

Corff Llywodraethu'r [] Fe wnaeth yr ysgol fabwysiadu'r polisi rheoli perfformiad hwn ar [].

Cynnwys

1. Yngl n â'r polisi hwn	40
2. Egwyddorion sy'n sail i reoli perfformiad	41
3. Safonau proffesiynol	41
4. Amseru'r cylch rheoli perfformiad	41
5. Penodi gwerthuswyr	41
6. Y cynllun rheoli perfformiad	41
7. Y cyfarfod adolygu	43
8. Y datganiad adolygu gwerthusiad	43
9. Argymhellion datblygiad cyflog	43
10. Apeliadau	43
11. Defnyddio datganiadau gwerthuso	44
12. Atal tangyflawni	45
13. Hyfforddiant a chefnogaeth	45
14. Monitro a gwerthuso	45
Anecs A: Rhestr Wirio Asesu Effaith Llwyth Gwaith	46
Anecs B: Templed Cofnodi Cynllunio	47
Anecs C: Protocol Arsylwi Gwersi	48
Anecs D: Templed Adborth Arsylwi Gwersi	50
Anecs E: Cofnod Ymarfer, Adolygu a Datblygu	51
Anecs F: Datganiad Gwerthuso a Thempled Anecs	52
Anecs G: Canllawiau Arsylwi yn yr Ystafell Ddosbarth Llywodraeth Cymru	53
Anecs H: Templed Argymhelliad Datblygiad Cyflog ¹	55

1. YNGL N Â'R POLISI HWN

Mae'r polisi hwn yn pennu'r trefniadau rheoli perfformiad ar gyfer pennaeth ac athrawon [nodwch enw'r ysgol]. Mae'r corff llywodraethu, y pennaeth a'r awdurdod lleol wedi cytuno arno ac mae'n dilyn ymgynghoriad gyda phob aelod o'r staff ac undebau llafur cydnabyddedig. Mae'n disgrifio'r pwrpas, y gweithdrefnau, y rolau a'r cyfrifoldebau a fydd yn sicrhau bod trefniadau rheoli perfformiad yr ysgol yn cyfrannu at ddatblygiad proffesiynol ei staff ac at gyflawni amcanion datblygu ehangach ar gyfer yr ysgol a'i dysgwyr.

Bydd y polisi yn cael ei adolygu yn flynyddol a bydd unrhyw newidiadau angenrheidiol yn destun ymgynghoriad pellach gydag aelodau o'r staff. Cafodd y polisi ei adolygu ddiwethaf ar **[nodwch ddyddiad yr adolygiad diwethaf]**.

Bydd y pennaeth yn darparu adroddiad ysgrifenedig blynyddol ar weithrediad ac effeithiolrwydd y polisi hwn i'r corff llywodraethu, gan gynnwys yr anghenion hyfforddi a datblygu sy'n codi o'r broses rheoli perfformiad.

Mae'r polisi hwn wedi cael ei greu gan roi sylw dyledus i reoliadau gwerthuso presennol a'r canllawiau ategol a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru. Mae'r rhain ar gael yn:

Rheoliadau

www.legislation.gov.uk/wsi/2011/2940/contents/made.

Canllawiau

<http://learning.wales.gov.uk/yourcareer/performance/management/pmguidance/?lang=cy>.

Nid yw'r polisi hwn yn berthnasol i:

- athrawon newydd gymhwyso sy'n cael eu hyfforddiant cynefino statudol sydd wedi'u heithrio rhag trefniadau rheoli perfformiad;
- athrawon sydd wedi'u cyflogi am gyfnod sy'n llai na thymor ysgol.

¹ Dyma Anecs NASUWT

2. EGWYDDORION SY’N SAIL I REOLI PERFFORMIAD

Mae rheoli perfformiad yn ddull o wella ysgol sy’n gwbl gynhwysol. Mae’n gosod fframwaith ar gyfer athrawon ac arweinwyr ysgolion i gytuno ar flaenoriaethau ac amcanion a’u hadolygu yng nghyd-destun cynllun gwella ysgolion Mae rheoli perfformiad yn darparu’r cyfle i ymrwymo ar y cyd i gyflawni safonau uchel. Mae’n helpu i ganolbwyntio’r sylw ar addysgu mwy effeithiol ac, felly, yn rhoi budd i ddisgyblion, athrawon a’r ysgol. Mae’n golygu darparu hyfforddiant priodol ac effeithiol, arweiniad a chyfleoedd datblygu i unigolion i sicrhau boddhad yn y swydd, lefel uchel o arbenigedd a dilyniant gyrfa.

Bydd yr egwyddorion canlynol yn sail i’n trefniadau rheoli perfformiad.

- Ymddiriedaeth, cyfrinachedd a deialog proffesiynol rhwng y gwerthuswr a’r gwerthusai.
- Cysondeb, fel bod pob aelod o’r staff yn cael ei drin yn deg.
- Cydnabod cryfderau ac ymrwymiad i rannu ymarfer effeithiol.
- Ymrwymiad i ddarparu adborth adeiladol ar berfformiad.
- Trwyadl ac yn seiliedig ar dystiolaeth.
- Ymrwymiad ar y cyd i fodloni cynllun gwella ysgolion a blaenoriaethau cenedlaethol priodol.
- Bwriedir i’r Polisi fod yn ddatblygiadol ac yn gefnogol.
- Bydd y Polisi yn ganolog i gynlluniau gwella’r ysgol a hunanwerthuso.

Mae’r Corff Llywodraethu yn cydnabod bod gan y pennaeth a’r athrawon hawl i gydbwysedd rhwng bywyd a gwaith fel a nodir yn y Ddogfen Cyflog ac Amodau Athrawon. O ganlyniad, mae’r polisi wedi cael asesiad effaith llwyth gwaith (gweler Anecs A) a bydd yr ysgol yn trefnu’r holl weithgareddau rheoli perfformiad o fewn yr amser cyfeiriedig ond nid o fewn yr amser cynllunio, paratoi ac asesu.

Mae’r Corff Llywodraethu wedi ymrwymo i sicrhau bod y broses rheoli perfformiad yn deg ac yn anwahaniaethol.

3. SAFONAU PROFFESIYNOL

Mae gofyn i athrawon fodloni’r Safonau ar gyfer Athrawon sy’n Ymarfer ar ddiwedd eu cyfnod cynefino ac mae’n rhaid iddynt barhau i’w bodloni drwy gydol eu gyrfa. Mae gofyn i’r pennaeth fodloni’r Safonau Arweinyddiaeth. Efallai bydd ymarferwyr eraill yn dewis defnyddio’r Safonau Arweinyddiaeth ar gyfer eu datblygiad arweinyddiaeth lle caiff hwn ei nodi fel blaenoriaeth ar gyfer eu datblygiad proffesiynol.

Dylai’r safonau proffesiynol gael eu hystyried yn eu cyfanrwydd i roi cefndir i drafodaeth ac i helpu ymarferwyr i nodi meysydd i’w datblygu ymhellach www.wales.gov.uk/topics/educationandskills/publications/circulars/practitioners/?lang=cy.

4. AMSERU’R CYLCH RHEOLI PERFFORMIAD

Bydd cylch rheoli perfformiad blynyddol yr ysgol yn cychwyn ar [nodwch y dyddiad] ac wedi’i gwblhau erbyn [nodwch y dyddiad].

Mae’r cylch gwerthuso wedi cael ei amseru i gysylltu â chylch cynllunio blynyddol yr ysgol.

5. PENODI GWERTHUSWYR

Bydd pennaeth yn penodi gwerthuswr ar gyfer pob athro yn yr ysgol. Fel arfer, y gwerthuswr fyddai rheolwr llinell y sawl sy’n gwerthuso. Bydd y gwerthuswr yn rhedeg pob agwedd o’r adolygiad, gan gynnwys argymhellion cyflog ar gyfer athrawon sy’n gymwys.

Mae gan athrawon a’r pennaeth yr hawl i wrthwynebu gwerthuswr ar sail cysondeb a thegwch.

Bydd gwerthusiad y pennaeth yn cael ei gynnal gan banel sy’n cynnwys:

- o leiaf dau lywodraethwr a benodwyd gan y corff llywodraethu;
- un neu ddau o gynrychiolwyr a benodwyd gan yr awdurdod lleol.

6. Y CYNLLUN RHEOLI PERFFORMIAD

Bydd rheoli perfformiad yn gylch parhaus drwy gydol y flwyddyn sy’n cynnwys tri cham o gynllunio, monitro perfformiad ac adolygu perfformiad.

Bydd y gwerthuswr yn cwrdd â’r athro/pennaeth ar ddechrau’r cylch i gynllunio a pharatoi ar gyfer y gwerthusiad blynyddol. Efallai bydd y cyfarfod hwn yn cael ei gyfuno â’r cyfarfod adolygiad a gynhaliwyd ar ddiwedd y cylch blaenorol.

Ni fydd gan yr holl athrawon, gan gynnwys y pennaeth, fwy na thri amcan.

Bydd y cyfarfod yn ceisio cytuno ar y canlynol:

- Yr amcanion ar gyfer y cylch a gweithgareddau datblygu proffesiynol i gefnogi cyflawni'r amcanion.
- Bydd y tri amcan yn ymwneud ag amcan ysgol gyfan a gytunwyd arno ac amcan yr adran sy'n seiliedig ar y Cynllun Gwella Ysgolion, ac amcan sy'n adlewyrchu dyheadau datblygiad proffesiynol yr athro.
- Bydd yr amcanion yn heriol, yn realistig, yn gyraeddadwy, yn gyfyngedig o ran amser, yn deg ac yn gyfiawn mewn perthynas ag athrawon sydd â rolau, dyletswyddau a phrofiadau tebyg.
- Bydd yr amcanion y cytunwyd arnynt yn ystyried yr hyn y gellir ei ddisgwyl yn rhesymol gan unrhyw athro neu bennaeth wrth ystyried dymunoldeb y gwerthusai i gyflawni cydbwysedd boddhaol rhwng bywyd a gwaith.
- Gall amcanion gael eu hadolygu gan y gwerthuswr mewn amgylchiadau eithriadol a gall y rhesymau gael eu cofnodi. Yn ogystal, gall gwrthwynebiadau gael eu cofnodi gan y gwerthusai.
- Bydd cofnod o'r cyfarfod cynllunio yn cael ei gadw gan y gwerthuswr a'r gwerthusai (gweler Anecs B).
- Nid oes rhaid trefnu cyfarfodydd adolygu ffurfiol yn ystod y cylch ond bydd trafodaethau anffurfiol efallai'n cael eu cynnal a dylid cytuno arnynt ar ddechrau'r cyfarfod cynllunio. Efallai byddant yn cyd-fynd â'r adborth a geir wrth arsylwi gwersi a dylid cadw cofnod ysgrifenedig.

Gweithdrefnau Monitro

Mae'r gweithdrefnau monitro yn cynnwys trefniadau ar gyfer arsylwi addysgu fel a ganlyn:

- Mae gofyn i'r gwerthuswr arsylwi'r gwerthusai'n addysgu o leiaf unwaith yn ystod y cylch. Er nad oes gofyniad uwch, dim ond unwaith y tymor y bydd gwers yn cael ei harsylwi fel arfer, ac ni fydd yn cymryd mwy nag awr. Bydd ffocws ac amser yr arsylwi yn cael eu cytuno arnynt a'u cofnodi yn y cyfarfod cynllunio.
- Yn dilyn trafodaeth yn ystod y cylch gwerthuso, bydd y gwerthusai a'r gwerthuswr efallai yn cytuno i ailedrych ar y nifer o weithiau y mae gwersi yn cael eu harsylwi er mwyn helpu i fodloni unrhyw amcanion. Bydd newidiadau o'r fath yn cael eu cofnodi'n ffurfiol yn y ddogfennaeth gwerthuso ac yn cael ei lofnodi gan y gwerthusai a'r gwerthuswr.
- Bydd protocol arsylwi yn yr ystafell ddosbarth a gytunwyd arno yn cefnogi'r broses fonitro (gweler Anecs C).
- Dim ond y rheini sydd â Statws Athro Cymwysedig a gaiff arsylwi yn yr ystafell ddosbarth. Rhoddir cofnod o'r wers a gafodd ei harsylwi i'r gwerthusai (gweler Anecs D).
- Dim ond gwerthuswyr fel arfer a fydd yn arsylwi gwersi, ac mae'n rhaid iddynt arsylwi'r gwerthusai o leiaf unwaith. Fodd bynnag, efallai y cytunir yn y cyfarfod cynllunio y bydd ychydig o'r gwaith arsylwi yn cael ei wneud gan berson nad yw'n werthuswr.
- Pan fydd person heblaw'r gwerthuswr yn arsylwi, mae'n rhaid rhoi cofnod o'r wers a gafodd ei harsylwi i'r gwerthuswr a'r gwerthusai.
- Dewisir y gwersi a gaiff eu harsylwi yn deg er mwyn adlewyrchu'r ystod o waith a wneir gan y gwerthusai.
- Bydd y gwerthuswr hefyd yn ystyried effeithiau amgylchiadau'r gwerthusai, gan gynnwys unrhyw anabledd, wrth gytuno ar amcanion. Er enghraifft, efallai bydd hyn yn cynnwys addasiad rhesymol er mwyn caniatáu ychydig yn fwy o amser na'r arfer i unigolyn gwblhau tasg.
- Pan fydd gwerthusai yn dychwelyd ar ôl cyfnod hir o absenoldeb, mae'n bosib addasu amcanion i'w alluogi i ailaddasu i'w amgylchedd gwaith.
- Bydd yr holl waith o arsylwi gwersi beirniadol, fel y cyfeirir ato yng nghanllawiau Llywodraeth Cymru ar arsylwi (gweler Anecs G), yn cael ei gynnal drwy ffordd arall o reoli perfformiad heblaw arolygiad Estyn, neu gan Estyn mewn amgylchiadau lle bydd adroddiadau arolygu'n categoreiddio'r ysgol fel un sydd angen ei gwella'n sylweddol neu fesuriadau arbennig, neu athro'n wynebu gweithdrefnau medrusrwydd, neu athro ar gyfnod cynefino neu drwy asesiad y rhaglen athrawon graddedig.
- Yn achos y cyfarfod cynllunio, ni fydd unrhyw wybodaeth yn cael ei defnyddio gan berson arall, un ai'n ysgrifenedig neu ar lafar, heb ganiatâd y gwerthusai.

Yn achos cynllun perfformiad y pennaeth yn unig, bydd cadeirydd y corff llywodraethu yn darparu copi ar gais o amcanion y pennaeth i Estyn.

Bydd y trefniadau ar gyfer monitro perfformiad yn erbyn yr amcanion, gan gynnwys y defnydd o arsylwi, yn cael eu penderfynu yn ystod y cyfarfod cynllunio ac yn cael eu cofnodi gan y gwerthuswyr.

Bydd y gwerthusai a'r gwerthuswr yn adolygu'r cynnydd drwy gydol y cylch, gan gynnwys y defnydd o drafodaethau anffurfiol.

Mae gofyn i werthuswyr gadw cofnod ymarfer, adolygu a datblygu cyfredol yn ystod y cylch gwerthuso.

Nod y cofnod Ymarfer, Adolygu a Datblygu yw helpu'r rhai sy'n cael eu gwerthuso i wneud y canlynol:

- bodloni gofynion y rheoliadau gwerthuso i gadw cofnod cyfredol:
 - o o'u hasesiad eu hunain o'u perfformiad yn unol â'u hamcanion rheoli perfformiad;
 - o y datblygiad proffesiynol a wneir, neu'r gefnogaeth arall a ddarperir, a sut mae hyn yn cyfrannu at gyflawni amcanion;
 - o unrhyw ffactorau y mae'r ymarferwyr yn ystyried eu bod yn effeithio ar berfformiad yn unol â'r amcanion;
- darparu ffocws ar gyfer trafodaeth yn y cyfarfodydd adolygu a gellir ei drafod yn anffurfiol yn ystod y cylch ac yn y cyfarfod cynllunio ar gyfer y cylch nesaf.

Cofnod personol y gwerthusai yw'r cofnod Ymarfer, Adolygu a Datblygu, ond bydd angen ei ddefnyddio mewn cyfarfodydd adolygu a dylai fod yn sail i'r cyfarfod cynllunio ar gyfer y cylch nesaf.

Ni fydd y cofnod Ymarfer, Adolygu a Datblygu yn rhan o'r datganiad gwerthuso.

Dylai'r cofnod Ymarfer, Adolygu a Datblygu fod yn ddogfen fer a chryno (gweler Anecs E).

7. Y CYFARFOD ADOLYGU

Ar ddiwedd y cylch rheoli perfformiad, bydd cyfarfod adolygu ffurfiol yn cael ei gynnal lle bydd y gwerthuswr a'r gwerthusai yn trafod cyflawniadau, unrhyw feysydd i'w gwella a gweithgareddau datblygiad proffesiynol. Gan ddeall bod y cyfarfod cynllunio yn broses ar wahân, gellir cyfuno'r cyfarfod hwn â chyfarfod cynllunio'r cylch blynyddol nesaf.

Bydd y cofnod Ymarfer, Datblygu ac Adolygu yn darparu ffocws ar gyfer y cyfarfod adolygu.

Pwrpas y cyfarfod adolygu fydd:

- asesu i ba raddau y mae'r gwerthusai wedi cyflawni ei amcanion;
- penderfynu a yw'r perfformiad wedi bod yn llwyddiannus ar y cyfan o ran cadarnhau bod y gwerthusai yn parhau i fodloni'r safonau proffesiynol perthnasol;
- os bydd angen, nodi'r angen ar gyfer cymorth, hyfforddiant neu ddatblygiad ychwanegol, a sut gellir cyflawni hyn.

Bydd unrhyw gynnydd da tuag at gyflawni amcan heriol yn cael ei asesu'n ffurfiol.

Ni fydd unrhyw wybodaeth yn cael ei defnyddio gan berson arall, un ai'n ysgrifenedig neu ar lafar, heb ganiatâd y gwerthusai.

8. Y DATGANIAD AM YR ADOLYGIAD GWERTHUSO

O fewn deg diwrnod ysgol o'r cyfarfod adolygu, bydd y gwerthuswr yn darparu datganiad ysgrifenedig i'r gwerthusai o'r prif bwyntiau a wnaed yn y cyfarfod adolygu a'r casgliadau y daethpwyd iddynt. Atodir crynodeb o anghenion datblygu proffesiynol i'r datganiad a syniad ynghylch sut y gellir eu cyflawni.

Bydd y gwerthuswr yn ceisio cytuno ar eiriad terfynol y datganiad gwerthuso gyda'r gwerthusai.

Gall y gwerthusai, o fewn deg diwrnod ysgol o gael y datganiad gwerthuso terfynol, ychwanegu sylwadau ysgrifenedig. Yna bydd y sylwadau hyn yn rhan o'r datganiad.

Ni ddylai gwerthuswr gael gwybodaeth gan unrhyw berson arall, boed hynny ar lafar neu ar bapur, sy'n ymwneud â pherfformiad y gwerthusai heb ganiatâd y gwerthusai ei hun.

Mae'r datganiad gwerthuso a'r atodiad yn ddogfennau cyfrinachol ac mae'n rhaid eu cadw mewn man diogel. Dilyni'r darpariaethau'r Ddeddf Diogelu Data bob amser.

9. ARGYMHELLION DATBLYGIAD CYFLOG

Rhaid i'r argymhellion datblygiad cyflog gael eu gwneud gan y gwerthuswr neu athrawon cymwys o ganlyniad i'w hadolygiad rheoli perfformiad pan fydd athrawon wedi cyflawni neu wedi gwneud cynnydd sylweddol tuag at gyflawni eu hamcanion (gweler Anecs H). Yr adolygiad perfformio ar ddiwedd y cylch yw'r unig dystiolaeth y mae gofyn i athrawon ei chael er mwyn cefnogi datblygiad cyflog. Fodd bynnag, pe bai athrawon yn dymuno cyflwyno dystiolaeth ychwanegol, gallant wneud hynny, ond ni fydd gofyn iddynt gyflwyno dystiolaeth ychwanegol ac ni chânt eu disgyblu os dewisant beidio â gwneud hynny.

10. APELIADAU

Gall y gwerthusai apelio yn erbyn y datganiad gwerthuso o fewn deg diwrnod ysgol o gael y datganiad gwerthuso. Bydd swyddog apelïadau neu, yn achos y pennaeth, bydd panel apelïadau'n cael ei benodi i gynnal adolygiad.

Bydd pob apêl yn cael ei chynnal yn unol â'r Rheoliadau Gwerthuso presennol a'r cyfarwyddyd Llywodraeth Cymru cysylltiedig.

I grynhoi, bydd y broses apelio yn cynnwys y camau canlynol

- Bydd y gwerthusai yn cyflwyno apêl i'r corff llywodraethu.
- Bydd swyddog/panel apelïadau yn cael ei benodi.
- Bydd copi o'r datganiad gwerthuso yn cael ei roi i'r swyddog/panel apelïadau o fewn pum niwrnod ysgol o gael yr hysbysiad am apêl.
- Bydd adolygiad apelïadau yn cael ei gynnal o fewn deg diwrnod ysgol o gael y datganiad gwerthuso.
- Rhaid i'r swyddog/panel apelïadau ystyried unrhyw sylwadau a wnaed gan y gwerthusai.
- Yna gall y swyddog/panel benderfynu:

- o bod y gwerthusiad wedi cael ei gynnal yn foddhaol
- o gyda chytundeb y gwerthuswr, diwygio'r datganiad gwerthuso;
- o gorchymyn y dylid cynnal gwerthusiad newydd.
- Os penderfynir ar werthusiad newydd, ni ddylai'r broses gymryd mwy na phymtheg diwrnod ysgol.
- Ni all y swyddog/panel apeliadau benderfynu ar y canlynol:
 - o gosod amcanion newydd
 - o diwygio'r amcanion sydd eisoes yn bodoli.

11. Y DEFNYDD O DDATGANIADAU GWERTHUSO

Mae'r broses rheoli perfformiad gyfan, y datganiad o amcanion a'r datganiad gwerthuso yn ddogfennau personol a chyfrinachol a chânt eu cadw mewn man diogel.

Athrawon

Rhaid i'r gwerthuswr roi copi o'r datganiad gwerthuso i'r gwerthusai ac i'r pennaeth. Yn ei dro, bydd y pennaeth yn darparu copi ar gais i'r canlynol:

- y gwerthuswr;
- y swyddog apeliadau;
- unrhyw lywodraethwyr sy'n gyfrifol am wneud penderfyniadau neu roi cyngor ar faterion sy'n ymwneud â chyflog.

Pan fydd y gwerthusai yn gymwys i gael datblygiad cyflog yn ôl y Ddogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol, bydd y gwerthuswr yn darparu argymhelliad ar ddatblygiad cyflog i'r pennaeth, yn unol â darpariaethau'r Ddogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol (gweler Anecs H).

Bydd y pennaeth yn darparu copi o'r anecs i'r datganiad gwerthuso yn nodi manylion yr anghenion datblygu proffesiynol i'r person sydd â chyfrifoldeb ysgol gyfan dros y ddarpariaeth gynllunio ar gyfer hyfforddi a datblygu.

Bydd y datganiad gwerthuso yn cael ei gadw gan y pennaeth mewn man diogel am o leiaf chwe blynedd ar ôl i'r datganiad gwerthuso nesaf gael ei gwblhau. Mae hyd yr amser hwn yn unol â'r trefniadau trothwy.

Pennaeth

Yn achos rheoli perfformiad y pennaeth, bydd y gwerthuswyr yn rhoi copïau o'r datganiad gwerthuso i'r pennaeth, i gadeirydd y corff llywodraethu ac i'r prif swyddog addysg. Bydd gwerthuswyr hefyd yn darparu copi ar gais i unrhyw lywodraethwyr sy'n gyfrifol am wneud penderfyniadau neu roi cyngor ar faterion sy'n ymwneud â chyflog.

Bydd cadeirydd y corff llywodraethu hefyd yn darparu copi o ddatganiad gwerthuso y pennaeth ar gais i'r canlynol:

- unrhyw swyddog a ddynodir yn gyfrifol am berfformiad y pennaethiaid gan y prif swyddog addysg;
- unrhyw swyddog apeliadau.

Bydd cadeirydd y corff llywodraethu yn darparu copi o'r anecs i'r datganiad gwerthuso yn nodi manylion yr anghenion datblygu proffesiynol i'r person sydd â chyfrifoldeb ysgol gyfan dros y ddarpariaeth gynllunio ar gyfer hyfforddi a datblygu.

Bydd y datganiad gwerthuso yn cael ei gadw gan y corff llywodraethu mewn man diogel am o leiaf chwe blynedd ar ôl i'r datganiad gwerthuso nesaf gael ei gwblhau. Bydd y pennaeth hefyd yn cadw copi o'r datganiad gwerthuso am yr un cyfnod o amser.

Gall gwybodaeth o ddatganiad gwerthuso'r pennaeth gael ei hystyried gan y corff llywodraethu (neu ei bwyllgorau) o ran materion sy'n ymwneud â dyrchafu, disgyblu neu ddiswyddo pennaeth neu sy'n ymwneud ag unrhyw ddisgresiwn ynglŷn â chyflog.

12. ATAL TANGYFLAWNI

Bydd trefniadau rheoli llinell, gan gynnwys y defnydd effeithiol o'r gweithdrefnau a amlinellir yn y polisi hwn, yn helpu i atal tangyflawni drwy ganfod, cefnogi ac ymyrryd yn gynnar.

Os bydd perfformiad athro yn achosi pryder difrifol a bod tystiolaeth yn cael ei darparu i ddangos hyn, yna dylid rhoi cam anffurfiol y weithdrefn medrusrwydd ar waith.

Gall gwybodaeth o'r datganiad gwerthuso gael ei hystyried wrth wneud penderfyniadau ynglŷn â materion sy'n ymwneud â chyflog, dyrchafu, diswyddo neu ddisgyblu. Fodd bynnag, nid yw'r gweithdrefnau rheoli perfformiad a nodir yn y polisi hwn, gan gynnwys y cyfarfod adolygu a'r datganiad gwerthuso, yn rhan o unrhyw weithdrefnau sy'n ymwneud â disgyblu, cymhwysedd neu fedrusrwydd.

13. HYFFORDDIANT A CHYMORTH

Bydd rhaglen datblygiad proffesiynol parhaus yr ysgol yn seiliedig ar yr anghenion hyfforddi a datblygu a nodir yn anecs hyfforddiant datganiadau cynllunio ac adolygu'r gwerthusai.

Bydd y corff llywodraethu'n sicrhau wrth gynllunio'r gyllideb, cyn belled ag y bo modd, bod yr adnoddau priodol ar gael ar gyfer unrhyw hyfforddiant a chefnogaeth y cytunwyd arnynt ar gyfer y rhai sy'n cael eu gwerthuso.

Bydd cofnod o anghenion hyfforddi a datblygu'r athrawon, gan gynnwys yr achosion lle nad oedd yn bosib darparu unrhyw ddatblygiad proffesiynol parhaus, yn rhan o adroddiad blynyddol y pennaeth i'r corff llywodraethu ynghylch y ffordd y mae'r broses o reoli perfformiad yn cael ei rhedeg yn yr ysgol.

Ni fydd y rhai sy'n cael eu gwerthuso yn atebol am fethu gwneud cynnydd da tuag at gyflawni eu hamcanion rheoli perfformiad os na chafodd y gefnogaeth a gofnodwyd yn eu datganiad cynllunio ei darparu.

Bydd pob gwerthuswr yn cael hyfforddiant i'w alluogi i gyflawni pob agwedd ar ei rôl yn briodol ac yn effeithiol.

14. MONITRO A GWERTHUSO

Bydd y corff llywodraethu a'r pennaeth yn monitro'r ffordd y mae trefniadau gwerthuso'r ysgol yn cael eu rhoi ar waith a'u heffeithiolrwydd.

Bydd y pennaeth yn darparu adroddiad ysgrifenedig i'r corff llywodraethu ar y ffordd y mae polisïau gwerthuso a medrusrwydd yr ysgol yn cael eu rhoi ar waith bob blwyddyn. Ni fydd yr adroddiad yn enwi unrhyw unigolyn. Bydd yr adroddiad yn cynnwys asesiad o effaith y polisïau hyn ar: hil, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, anabledd, crefydd a chredoau, oed, statws rhan-amser a mamolaeth a beichiogrwydd.

Bydd y pennaeth yn rhoi gwybod a oes unrhyw apeliadau neu sylwadau unigol neu ar y cyd wedi cael eu gwneud ynglŷn â gwahaniaethu honedig.

ANECs A: RHESTR WIRIO ASESU EFFAITH LLWYTH GWAITH

Mae'r polisi hwn wedi cael ei asesu yn unol â'r system y cytunwyd arni i fonitro llwyth gwaith ac oriau gwaith yr athrawon a'r pennaeth.

☐

Mae'r polisi hwn yn cydymffurfio ac yn gyson â hawliau contract yr athrawon.

☐

Cafodd y polisi hwn ac unrhyw weithdrefnau cysylltiedig eu cyflwyno yn dilyn ymgynghoriad llawn ag undebau llafur yr athrawon.

☐

Mae'r polisi hwn ac unrhyw weithdrefnau cysylltiedig yn cynnwys datganiad penodol ynglŷn ag effaith llwyth gwaith.

☐

Ni fydd y polisi hwn nac unrhyw weithdrefnau cysylltiedig yn cynnwys oriau gwaith ychwanegol.

☐

Nid yw'r polisi hwn yn dyblygu unrhyw bolisi arall sydd eisoes yn bodoli.

☐

Mae'r adnoddau sy'n angenrheidiol ar gyfer cefnogi'r polisi hwn, gan gynnwys amser staff, unrhyw staff ychwanegol a chyfarpar priodol, wedi cael eu nodi.

☐

Ni fydd gweithredu'r polisi hwn yn golygu y bydd unrhyw gyfarfodydd/gweithgareddau ychwanegol, na chawsant eu nodi ar galendr yr ysgol, yn cael eu cyhoeddi a'u hadolygu mewn ymgynghoriad ag undebau llafur athrawon.

☐

Bydd pob aelod o'r staff (gan gynnwys y pennaeth) yn cael ei hyfforddi i sicrhau bod y polisi hwn ac unrhyw weithdrefnau cysylltiedig yn cael eu rhoi ar waith heb gynyddu'r baich gwaith.

☐

Bydd y polisi hwn ac unrhyw weithdrefnau cysylltiedig yn cael eu hadolygu bob blwyddyn i sicrhau nad oes baich gwaith wedi cael ei ychwanegu dros amser.

☐

AN ECS B: TEMPLED COFNODI CYNLLUNIO

Enw'r Gwerthusai: _____

Enw'r Gwerthuswr: _____

Dyddiad y cyfarfod: _____

Amcanion:

1.

2.

3.

Datblygiad a hyfforddiant: _____

Adnoddau i ategu'r amcanion: _____

Y drefn ar gyfer monitro cynnydd: _____

Sylwadau'r arfarnai:

Arfarnai (llofnod): _____

Arfarnwr (llofnod): _____

Dyddiad: _____

ANECs C: PROTOCOL ARSYLWI GWERSI

Cyflwyniad

Mae'r corff llywodraethu wedi ymrwymo i sicrhau bod arsylwi gwersi yn ddatblygiadol ac yn gefnogol ac y bydd y rheini sy'n ymwneud â'r broses yn gwneud y canlynol:

- cyflawni'r rôl yn broffesiynol, yn onest ac yn gwrtais;
- ceisio cyrraedd cytundeb ymlaen llaw ynglŷn â sut dylid arsylwi gwersi;
- gwerthuso'n wrthrychol;
- adrodd yn ôl yn gywir ac yn deg;
- parchu cyfrinachedd y wybodaeth a gafwyd.

Cynllunio a pharatoi ar gyfer arsylwi gwersi

Yn unol ag ymrwymiad corff llywodraethu'r ysgol i arsylwi datblygiadol a chefnogol ar wersi, bydd y pennaeth yn gwneud y canlynol:

- ymgynghori ag athrawon ynglŷn â phatrwm arsylwi gwersi y gallant ei ddisgwyl bob blwyddyn a cheisio cytundeb ag athrawon a chynrychiolwyr undebau ynglŷn â'r trefniadau hyn;
- sicrhau bod y rheini sy'n cael eu harsylwi at bob diben yn cael eu hysbysu o leiaf pum niwrnod ymlaen llaw;
- trefnu, cyn belled ag y bo modd, bod yr holl waith arsylwi yn cael ei gynnal ar amser y cytunwyd arno gan y gwerthusai a'r sawl sy'n arsylwi;
- sicrhau bod cyfnod rhesymol rhwng y sesiynau arsylwi gwersi, beth bynnag yw pwrpas y sesiynau arsylwi hynny.
- Sicrhau mai dim ond unigolion sydd â statws athro cymwysedig a'r hyfforddiant priodol a'r sgiliau proffesiynol i arsylwi ac i ddarparu cymorth ac adborth adeiladol ar bapur ac ar lafar, yng nghyd-destun deialog proffesiynol rhwng cydweithwyr, a gaiff arsylwi yn yr ystafell ddosbarth.

Bydd cynllunio ar gyfer y sesiwn arsylwi yn digwydd ar ddechrau'r cylch rheoli gwerthuso/perfformiad a bydd yn cynnwys manylion y canlynol:

- faint o arsylwi;
- ffocws yr arsylwi;
- hyd yr arsylwi;
- pryd yn ystod y cylch rheoli perfformiad y bydd gwers yn cael ei harsylwi; a
- phwy fydd yn arsylwi.

Er mwyn arsylwi gwersi cyn lleied â phosib, a chefnogi ymdrechion i gyflawni ymrwymiad yr ysgol i symleiddio'r broses casglu data gan leihau biwrocratiaeth a'r baich gwaith ar y rhai sy'n cael eu gwerthuso, bydd y wybodaeth a gesglir yn cael ei defnyddio at sawl diben, gan gynnwys bod yn sail i strategaethau hunanwerthuso'r ysgol a strategaethau gwella'r ysgol. Bydd hyn yn galluogi'r pennaeth, wrth gyflawni ei ddyletswyddau, i werthuso safonau'r addysgu a'r dysgu, ac i sicrhau bod safonau perfformio priodol yn cael eu sefydlu a'u cynnal.

Cyn i unrhyw wers gael ei harsylwi, bydd cyfle i'r gwerthuswr a'r gwerthusai gyfarfod o fewn oriau cyfeiriedig er mwyn trafod cyd-destun y wers sydd i'w harsylwi.

Cynnal sesiwn arsylwi

Bydd cyfyngiad o dair sesiwn arsylwi at bob diben. Ni fydd mwy na chyfanswm o dair awr y flwyddyn yn cael ei threulio yn arsylwi o dan unrhyw amgylchiadau ac mae'n rhaid cytuno ar y ffocws a'r amseru yng nghofnod cynllunio rheoli perfformiad y gwerthusai.

Ni fydd disgyblion na llywodraethwyr yn arsylwi (er, drwy gytundeb ymlaen llaw â'r athro dan sylw, gall llywodraethwyr ymweld â gwers i ddod yn gyfarwydd â'u hardal gyswllt).

Adborth a chofnodion

Bydd adborth yn cael ei roi ar lafar cyn gynted â phosib ar ôl arsylwi gwers a dim hwyrach nac ar ddiwedd y diwrnod gwaith canlynol. Caiff ei roi yn ystod oriau cyfeiriedig mewn amgylchedd priodol a phreifat. Bydd amser ar gyfer paratoi a rhoi adborth ynghylch arsylwi gwersi at ddibenion rheoli/gwerthuso perfformiad ar gael, yn ogystal ag amser i gynllunio, paratoi ac asesu.

Bydd adborth ysgrifenedig yn cael ei ddarparu o fewn pum niwrnod i'r sesiwn arsylwi. Os bydd materion yn codi o sesiwn arsylwi nad oedd yn rhan o ffocws yr arsylwi fel y cofnodir yn y datganiad cynllunio ac adolygu, dylid cynnwys y rhain hefyd yn yr adborth ysgrifenedig a thrafod y cam priodol â'r gwerthusai.

Bydd cofnod ysgrifenedig o'r adborth yn cynnwys dyddiad y sesiwn arsylwi, y wers a gafodd ei harsylwi a hyd y sesiwn arsylwi. Mae gan y gwerthusai hawl i ychwanegu sylwadau ysgrifenedig ar y ddogfen adborth. Ni fydd nodiadau ysgrifenedig a ychwanegir at yr adborth ysgrifenedig a sylwadau'r gwerthusai yn cael eu cadw. Bydd y gwerthuswr yn cael digon o amser mewn diwrnod ysgol i ysgrifennu'r casgliadau y cytunwyd arnynt â'r gwerthusai ynglŷn â chanlyniadau'r sesiwn arsylwi yn yr ystafell ddosbarth.

Bydd athrawon yn cael gweld pob adroddiad ysgrifenedig ynghylch yr arsylwi ar ôl eu gwersi, ac, os gofynnant, bydd copïau yn cael eu darparu.

Gweithdrefnau medrusrwydd ffurfiol ac arsylwi gwersi

Ar gyfer athrawon ar weithdrefn medrusrwydd ffurfiol, bydd nifer penodol o sesiynau arsylwi gydag adborth strwythuredig ar bapur ac ar lafar yn rhan bwysig o'r gefnogaeth a gynigir i'r athro. Bydd y nifer o sesiynau arsylwi yn yr ystafell ddosbarth yn cael eu trafod gyda'r athro a chynrychiolwr yr undeb sy'n ei gefnogi a'i gynghori yn ystod y broses ffurfiol.

D.S: Mae'n rhaid cymhwyso'r protocol hwn yng nghyd-destun Canllawiau Llywodraeth Cymru ar Arsylwi Gwersi yn Anecs G a Chyfarwyddiadau Gweithredoedd Cenedlaethol. Gweler www.nasuwt.org.uk/IndustrialAction.

ANECs D: TEMPLED ADBORTH ARSYLWI GWERSI

Dyddiad yr adborth: _____

Dyddiad arsylwi: _____

Y dosbarth a arsylwyd: _____

Cryfderau:

Meysydd i'w datblygu:

Sylwadau'r athro:

Arsylwr (llofnod): _____

Arfarnai (llofnod): _____

ANECs E: COFNOD YMARFER, ADOLYGU A DATBLYGU

COFNOD YMARFER, ADOLYGU A DATBLYGIAD										
Amcan	Darperir gweithgareddau datblygiad proffesiynol a chymorth		Cyfraniad gweithgareddau datblygiad proffesiynol a chymorth tuag at gyflawni'r amcanion			Ffactorau sy'n effeithio ar berfformiad yn erbyn yr amcanion		Asesu cynnydd yn erbyn yr amcanion		
	Disgrifiad	Dyddiad	Defnyddiol iawn	Defnyddiol	Dim help	Disgrifiad	Dyddiad	Cyflawnwyd	Cyflawnwyd yn rhannol	Heb ei gyflawni
I'w gwblhau yn y cyfarfod cynllunio	<i>I'w gwblhau yn y cyfarfod cynllunio</i>	<i>Ychwaneger ar ôl cael cadarnhad</i>	<i>Ticiwch fel sy'n briodol</i>			<i>I'w ychwanegu yn ystod y cylch, os bydd angen</i>		<i>Ticiwch fel sy'n briodol</i>		

ANECs F: DATGANIAD GWERTHUSO A THEMPLD ANECs

DATGANIAD ARFARNU

Dyddiad y Cyfarfod Adolygu: _____

Arfarnai: _____

Arfarnwr: _____

Rhestrwch yr amcanion a nodwch a lwyddwyd i gyflawni'r rheini neu a oes angen eu datblygu ymhellach.

Amcanion:

1.

2.

3.

Meysydd cryfder penodol (rhowch fanylion):

ATODIAD I'R DATGANIAD

Y meysydd i'w datblygu, os o gwbl, drwy hyfforddiant, datblygiad a chefnogaeth:

Cymorth ac adnoddau i'w darparu gan yr ysgol (rhowch fanylion):

Sylwadau'r arfarnai:

Cytunwyd ar gynnwys y cofnod hwn gan:

Arfarnai (llofnod): _____

Arfarnwr (llofnod): _____

Dyddiad pan gafodd yr arfarnai'r datganiad adolygu wedi'i gwblhau: _____

ANECs G: CANLLAWIAU ARSYLWI YN YR YSTAFELL DDOSBARTH LLYWODRAETH CYMRU

Gall arsylwi yn yr ystafell ddosbarth fod yn arf pwysig o ran codi safonau drwy gefnogi ymarferwyr wrth rannu a datblygu eu sgiliau a chan wella canlyniadau ar gyfer dysgwyr. Er nad oes cyfyngiadau ar yr uchafswm o adegau y gellir arsylwi, mae'n hanfodol bod y pwyslais yn bendant ar ansawdd y profiad yn hytrach na nifer y sesiynau arsylwi.

I sicrhau bod yr arsylwi yn bwrpasol, yn gefnogol ac yn ddatblygiadol, dylai pob un o'r rheini sy'n ymwneud â threfnu, cyflawni neu gymryd rhan mewn arsylwi roi sylw i'r cyfarwyddyd canlynol sy'n gosod y pwrpas a'r protocolau sy'n nodweddu ymarfer effeithiol.

Beth yw 'arsylwi yn yr ystafell ddosbarth'?

Mae 'arsylwi yn yr ystafell ddosbarth' yn cyfeirio at yr holl adegau y mae addysgu a/neu weithgareddau addysgu yn cael eu harsylwi at ddiben penodol gan rywun heblaw'r athro dosbarth a'r staff cymorth sydd fel arfer yn y dosbarth.

Egwyddorion a phrotocolau

Dylai arsylwi yn yr ystafell ddosbarth roi sylw i'r egwyddorion canlynol:

- Dylai pob un o'r rheini sy'n ymwneud â phob arsylwi rannu dealltwriaeth o'i bwrpas penodol. Dylid delio ag unrhyw anghydfod ynglŷn â gweithdrefnau arsylwi ayb drwy brosesau datrys anghydfod sefydledig yr ysgol a/neu drwy brosesau datrys anghydfod cydnabyddedig ar y cyd lle bo'n briodol.
- Lle bo'n ymarferol ac yn briodol, dylid gwneud ymdrech i gyfuno arsylwi at wahanol ddibenion fel bod y cyfleoedd ar gyfer arsylwi yn yr ystafell ddosbarth yn cael eu defnyddio'n effeithlon.
- Dylid meddwl yn ofalus am ddewis y sawl sy'n arsylwi fel y bydd yn adlewyrchu pwrpas yr arsylwi.
- Dylai arsylwi gefnogi a datblygu addysgu a dysgu – ni ddylai amharu ar weithgarwch arferol yn yr ystafell ddosbarth.
- Dylai trefniadau arsylwi gael eu cynllunio ymlaen llaw fel bod y rhai sy'n cymryd rhan yn cael rhybudd digonol.
- Dylai arsylwi fod yn wrthrychol, yn ddatblygiadol ac yn gefnogol a dylid ei gyflawni yn broffesiynol, yn onest ac yn gwrtais.
- Mae angen paratoi a rhoi ystyriaeth briodol ar gyfer arsylwi'n llwyddiannus.
- Fel rhan o drefniadau cyffredinol yr ysgol ar gyfer arsylwi yn yr ystafell ddosbarth, dylai'r rheini sy'n cymryd rhan yn yr arsylwi geisio cytuno ymlaen llaw ar natur ac amseru unrhyw adborth sydd i'w ddarparu ac â phwy y dylid ei rannu.
- Dylai trefniadau cynllunio ac adborth ystyried oriau cyfeiriedig a thelerau ac amodau statudol cyflogaeth.

Yn ogystal, ar gyfer yr arsylwi sy'n cynnwys barn ar berfformiad ymarferwyr unigol, dylid cymhwyso'r egwyddorion canlynol:

- Dim ond person sydd â Statws Athro Cymwysedig sy'n cael arsylwi addysgu at ddiben rheoli perfformiad athrawon (gan gynnwys asesiad athro newydd gymhwyso a Rhaglen Athrawon Graddedig) fel rhan o weithdrefnau medrusrwydd.
- Dylid penderfynu ar natur, pwrpas a hyd a lled yr arsylwi, yn ogystal â pha feysydd y dylid canolbwyntio arnynt yn y cyfarfod cynllunio.
- Bydd angen i gwmpas y dysgu sy'n cael ei arsylwi fod yn gytbwys i adlewyrchu amrywiaeth gwaith

athro, ond ni ddylai fod yn ormodol.

- Mae'n bwysig nad yw'r amser a dreulir yn arsylwi yn fwy na sydd ei angen i lunio barn gadarn ar sail tystiolaeth, gan fod sesiynau arsylwi aml yn wrthgynhyrchol ac yn tarfu ar eraill.
- Mae angen rhoi ystyriaeth ofalus yn y cyfarfod cynllunio ynglŷn â nifer y sesiynau arsylwi sydd i'w cynnal yn ystod y flwyddyn academaidd ac amseru'r sesiynau. Dylai'r ystyriaeth hon hefyd gynnwys gofynion y gwerthuswr i baratoi, cyflawni ac adrodd yn ôl yn ddigonol ar bob sesiwn. Er mwyn lleihau biwrocratiaeth mewn ysgolion, mae rhai gwerthuswyr, er enghraifft, yn credu ei bod yn ddefnyddiol cysylltu pob sesiwn â thoriadau naturiol y flwyddyn academaidd fel tymhorau.
- Dylid rhoi o leiaf pum niwrnod gwaith o rybudd ar gyfer arsylwi at y dibenion hyn.
- Mae'n bwysig bod y sesiynau sy'n cael eu harsylwi yn cael eu cynnal mewn amgylchedd sydd mor normal â phosib.
- Dylid rhoi adborth adeiladol bob amser ar lafar cyn gynted â phosib ar ôl yr arsylwi a dylid ei gadarnhau ar bapur o fewn pum niwrnod gwaith. Dylai athrawon gael y cyfle i ychwanegu sylwadau ysgrifenedig eu hunain at yr adborth hwn.
- Dylai pob un o'r rheini sydd â mynediad at y wybodaeth a geir o'r broses barchu ei chyfrinachedd a sicrhau bod darpariaethau Deddf Diogelu Data 1998 yn cael eu dilyn bob amser.

Dibenion arsylwi yn yr ystafell ddosbarth

Gellir trefnu dibenion arsylwi mewn grwpiau o dan y meysydd canlynol - nid yw'r rhain o anghenraid yn hollgynhwysol nac yn gyfyngedig:

1. **Arsylwi dysgu** dysgwyr unigol a/neu grwpiau o ddysgwyr; er enghraifft:
 - olrhain cynnydd unigolion a/neu grwpiau ar draws y cwricwlwm;
 - profiadau dysgwyr mewn gwahanol leoliadau;
 - codi ymwybyddiaeth ar gyfer llywodraethwyr.
2. Fel rhan o **ddatblygiad proffesiynol parhaus**; er enghraifft:
 - rhannu ymarfer effeithiol;
 - rhannu dysgu a datblygu ar y cyd;
 - arsylwi gan gyd-athrawon;
 - fel rhan o drefniadau hyfforddi a mentora;
 - arweiniad neu gyngor arbenigol - ar dechnegau addysgu, meysydd y cwricwlwm, defnydd o offer TGCh, ayb.
3. **Monitro ansawdd yr addysgu**, gan gynnwys:
 - fel rhan o'r cylch rheoli perfformiad blynyddol fel y diffinnir ym mholisi rheoli perfformiad yr ysgol;
 - fel rhan o weithdrefnau medrusrwydd fel y diffinnir ym mholisi medrusrwydd yr ysgol;
 - fel rhan o'r broses gynefino statudol ar gyfer athrawon newydd gymhwyso fel y diffinnir yn rheoliadau a chanllawiau Llywodraeth Cymru;
 - fel rhan o'r Rhaglen Athrawon Graddedig (neu raglenni mynediad athrawon eraill) fel y diffinnir yn rheoliadau a chanllawiau Llywodraeth Cymru;
 - at ddibenion rhoi barn ar addysgu a dysgu yn yr ysgol ar y cyfan;
 - fel rhan o drefniadau arolygu.

ANECs H: TEMPLED ARGYMHELLIAD DATBLYGIAD CYFLOG

DATGANIAD

Dyddiad yr Argymhelliad Datblygiad Cyflog _____

Gwerthuswr: _____

Gwerthusai: _____

Argymhelliad ar gyfer datblygiad cyflog*:

ar hyd y brif ystod cyflog hyd at bwynt _____

hyd at yr ystod cyflog uwch _____

ar hyd yr ystod cyflog ar gyfer ymarferwyr blaenllaw hyd at bwynt _____

ar hyd y brif ystod cyflog hyd at bwynt _____

ar hyd colofn gyflog y grŵp arwain hyd at bwynt _____

* llenwch fel y bo'n briodol

Manylion Rheoli/Gwerthuso Perfformiad*

Cyfnod wedi'i gynnwys yn yr Adroddiad Gwerthuso _____

Ysgolion wedi'u cynnwys yn y Datganiadau Gwerthuso _____

Datganiad

Yn unol â gofynion Rheoliadau Gwerthuso Athrawon Ysgol (Cymru) 2011, a chan ystyried y datganiadau gwerthuso priodol, rwy'n argymhell y dylai _____ ddatblygu i _____

Gwerthuswr (llofnod): _____

Gwerthusai (llofnod): _____

ATODIAD 3

AWGRYMIADAU YNGLYN Â GOSOD AMCANION

PROSES GOSOD AMCANION

Y cyfarfod cynllunio

Gosodir amcanion mewn cyfarfod cynllunio rhwng y sawl sy'n cael ei werthuso a'r gwerthuswr. Y nod yw cytuno ar yr amcanion ar gyfer y sawl sy'n cael ei werthuso.

Paratoi

Cyn y cyfarfod, mae angen i'r sawl sy'n cael ei werthuso ystyried y pwyntiau mae'n dymuno eu codi. Dylai ystyried ei ddisgrifiad swydd, gan sicrhau bod ganddo gopi o'r disgrifiad cyfredol, a nodi materion y gallai amcanion ganolbwyntio arnynt, gan gynnwys dyheadau proffesiynol, gwella cynnydd disgyblion ac unrhyw feini prawf datblygu cyflog perthnasol. Dylid hefyd ystyried cyfleoedd datblygu proffesiynol a chefnogaeth arall a allai fod o gymorth.

Os bydd nodiadau paratoi yn cael eu creu ar gyfer y cyfarfod, dim ond at ddibenion cyfeirio personol y dylent fod, fel cymorth i'r cof yn unig. Ni ddylid defnyddio na llenwi ffurflenni hunan-ddadansoddi nac adolygu nac unrhyw ddogfen arall a gaiff ei darparu gan yr ysgol, sydd i'w llenwi cyn y cyfarfod cynllunio, ac y bwriedir iddi gael ei gweld gan y gwerthuswr, neu fod yn rhan o'r ddogfennaeth a fydd ar gael i eraill ei gweld.

Ni ddylai athrawon byth gytuno i ddrafftio eu hamcanion eu hunain, naill ai cyn y cyfarfod neu ar unrhyw adeg arall. Er y gallai hyn ymddangos yn ddewis deniadol ar yr wyneb, nid cyfrifoldeb y sawl sy'n cael ei werthuso yw hyn, a gallai beri lawer o anawsterau.

Dogfennau

Ar ddechrau'r cyfarfod, dylai'r sawl sy'n cael ei werthuso a'r gwerthuswr sicrhau pa ddogfennau i'w defnyddio, a chytuno arnynt. Rhaid bod y cofnod cynllunio lle bydd canlyniad y cyfarfod yn cael ei gofnodi ar gael hefyd.

Cyrraedd cytundeb

Mae'n hanfodol bod y sawl sy'n cael ei werthuso yn dod i'r cyfarfod yn benderfynol o beidio â chaniatáu i'w hun gael ei wthio i dderbyn amcanion, nac unrhyw agwedd ar amcan, y mae'n bryderus yn ei gylch.

Mae Rheoliadau yn dweud y dylai'r gwerthuswr gofnodi'r amcanion ar gyfer y sawl sy'n cael ei werthuso os nad oes modd dod i gytundeb. Ni ddylai hyn beri i athrawon deimlo bod yn rhaid iddynt gytuno iddynt. Os bydd y gwerthuswr yn penderfynu cofnodi amcanion sydd heb eu cytuno, dylai'r athro wneud nodyn ysgrifenedig cryno ar y cofnod cynllunio yn dweud nad yw'n cytuno, a nodi'n gryno ei resymau dros beidio â chytuno. Dylid ceisio cyngor ar unwaith gan NASUWT.

Hyd yn oed mewn amgylchiadau lle bydd athro yn fodlon yn gyffredinol â chanlyniad y drafodaeth, mae'n arfer da ystyried yr amcanion sydd wedi'u cofnodi ac edrych ar y geirio yn ofalus cyn gwneud ymrwymiad terfynol.

Cofnodi'r canlyniad

Rhaid i athrawon sicrhau bod y gwerthuswr yn cofnodi'r wybodaeth ganlynol yn glir ar y cofnod cynllunio.

AMCANION

Cynnwys

Polisi NASUWT yw na ddylid cael mwy na thri amcan.

Rhaid i amcanion fod yn eglur, yn gryno ac yn hawdd eu deall.

Ni ddylid cytuno ar amcanion sy'n aneglur, neu sy'n ymddangos yn gymhleth, yn afrealistig ac yn anodd eu cyflawni.

Ni ddylai amcan gael ei rannu yn sawl rhan, oherwydd bydd hyn yn cynyddu nifer yr amcanion, i bob pwrpas.

Mae'n rhaid iddynt fod yn uniongyrchol gysylltiedig â disgrifiad swydd presennol yr athro ac ag unrhyw feini prawf datblygiad cyflog perthnasol. Nid yw gosod amcanion yn gyfle i reolwyr ysgolion neilltuo prosiectau i staff nad ydynt yn gysylltiedig â'u gwaith, nac ychwaith yn gyfle i newid disgrifiad swydd athro heb ddilyn y broses briodol.

Ni ddylid cyfeirio at unrhyw weithgareddau gwirfoddol nac allgyrsiol fel gwaith cartref, adolygu a chlybiau mathemateg, ysgolion haf a gweithgareddau ar y penwythnosau neu yn ystod y gwyliau, hyd yn oed os derbynnir tâl penodol ar eu cyfer.

Rhaid ystyried unrhyw anawsterau yn amgylchedd gwaith yr athro wrth osod amcanion. Gallai anawsterau gynnwys disgyblion aflonyddgar, dosbarthiadau mawr, disgyblion ag anghenion arbennig mewn dosbarthiadau prif ffrwd neu adnoddau annigonol. Rhaid i athrawon fod yn barod i bwysleisio'r rhain yn y cyfarfod cynllunio.

Mae Rheoliadau yn ei gwneud yn ofynnol i amcanion athro gynnwys cyfeiriad at gynnydd disgyblion a ffyrdd o ddatblygu a gwella arfer proffesiynol. Nid yw hyn yn golygu'n awtomatig bod angen dau amcan gwahanol ar gyfer pob un o'r agweddau hyn.

Rhaid i'r amcanion a gaiff eu gosod gael eu cofnodi ar y cofnod cynllunio.

Cynnydd disgyblion

Mae'r ffocws ar gynnydd disgyblion wrth osod amcanion yn un o'r agweddau mwyaf sensitif a chynhennus ar y broses rheoli perfformiad.

I gael unrhyw ddilysrwydd ystadegol, dylid mesur amcanion sy'n ymwneud â chynnydd disgyblion yn erbyn data cenedlaethol ar ysgolion a disgyblion tebyg, neu yn erbyn patrymau cyffredinol yn yr ysgol, yn hytrach na chymharu data disgyblion mewnol blwyddyn ar ôl blwyddyn.

Mae NASUWT yn gwrthwynebu'r defnydd o amcanion sy'n ymrwymo athro neu bennaeth i wella perfformiad disgyblion o ganran benodol.

Mae'n anodd i athro neu bennaeth unigol ragweld yn gywir neu warantu y gellir cyrraedd canran benodol. Mae nifer o ffactorau sy'n cael effaith ar berfformiad disgyblion y tu hwnt i reolaeth athrawon unigol. Gall mân-amrywiadau ym mhresenoldeb disgyblion penodol, er enghraifft, gael effaith sylweddol ar ganlyniadau canrannau.

Hefyd, mae NASUWT yn credu bod defnyddio targedau rhifiadol yn cyflwyno system 'talun yn ôl canlyniadau' nad oes lle iddi yn y broses rheoli perfformiad.

Am y rhesymau hyn, mae NASUWT yn dadlau y dylai amcanion sy'n ymwneud â chynnydd disgyblion fod yn rhai a rennir yn hytrach nag yn amcan i unigolyn, a dylent roi sylw i faterion sy'n ymwneud â nifer fawr o ddysgyblion yn hytrach na dosbarthiadau penodol.

Teachers and headteachers should not agree to set objectives which are linked to numerical targets.

Amcanion a rennir

Mae NASUWT yn credu'n gryf mewn defnyddio amcanion a rennir gan athrawon ar sail ysgol gyfan, adran neu grwp blwyddyn. Darperir ar gyfer trefniadau o'r fath yn Rheoliadau.

Dylai un neu fwy o amcanion y sawl sy'n cael ei werthuso fod yn amcan ysgol gyfan a rennir gan bawb, gan gynnwys y pennaeth. Dylid cytuno ar hyn drwy ymgynghori ag athrawon a'u cynrychiolwyr undeb. Dylid datgan yr amserlen, y gefnogaeth a'r datblygiad ar gyfer yr amcan, a chytuno arnynt, fel rhan o'r ymgynghoriad. Dylai pob athro gael copi o'r amcan ysgol gyfan y cytunwyd arno i gyfeirio ato. Dylid gwneud nodyn o'r amcan yn y cofnod cynllunio unigol neu atodi copi wrtho.

Mae hefyd yn briodol gosod amcanion ar gyfer adrannau cyfan neu grwpiau blwyddyn i'w rhannu gyda chydweithwyr eraill. Unwaith eto dylid datgan yr amserlen, y gefnogaeth a'r meini prawf llwyddiant, a chytuno arnynt, fel rhan o'r ymgynghoriad. Dylid rhoi copi i bob athro a'i atodi wrth y cofnod cynllunio unigol neu wneud nodyn ohono ar y cofnod.

Gellid defnyddio amcanion a rennir i wneud cynnydd effeithiol mewn perthynas â materion sydd wedi'u datgan yn y cynllun gwella ysgol.

Mae'r manteision a berthyn i amcanion a rennir yn amlwg. Maent yn hybu meithrin tîm, yn sefydlu ffocws ar nodau a rennir, yn rhoi sylw i'r anawsterau cynhenid mewn amcanion cynnydd disgyblion i athrawon unigol, yn hwyluso cynllunio mwy effeithlon ac effeithiol mewn perthynas ag adnoddau ac yn lleihau baich gwaith a'r amser sydd ei angen ar gyfer cyfarfodydd cynllunio.

Felly, yn ymarferol, gall unigolyn sy'n cael ei werthuso fod ag amcan ysgol gyfan a rennir gan bawb, amcan adran/grŵp blwyddyn a rennir gan gydweithwyr priodol, ac amcan unigol.

Os defnyddir amcanion a rennir, mae'n rhaid i Gynrychiolwyr NASUWT sicrhau bod ymgynghori didwyll yn digwydd a bod y cynnwys, yr amserlenni a'r gefnogaeth yn cyd-fynd â chyfarwyddyd NASUWT. Mae'r un egwyddorion yn berthnasol i'r rhain ag i amcanion unigol.

Athrawon sy'n gweithio'n rhan amser

Mae NASUWT yn pryderu y gosodir amcanion i athrawon sy'n gweithio'n rhan amser sydd â gofynion sy'n cyfateb i'r rhai sy'n gweithio'n llawn amser.

Er y dylid gosod tri amcan i athrawon rhan amser, mae'n rhaid i'r cynnwys fod yn briodol i'r amser maent yn ei weithio ac mae'n rhaid iddynt allu eu cyflawni o fewn yr oriau gwaith hynny. Gall athrawon sydd â chytundebau rhan amser mewn dwy ysgol fod yn agored iawn i ofynion gormodol a bydd rhaid iddynt fod yn wyladwrs o ran pa mor rhesymol yw'r amcanion sy'n berthnasol i'r naill gytundeb a'r llall.

Er bod athrawon sy'n rhan o drefniant rhannu swydd yn rhannu un swydd lawn amser, maent yn cael eu hystyried yn llygaid y gyfraith, ac at ddibenion rheoli perfformiad, fel athrawon rhan amser. Bydd pob athro sy'n rhannu'r swydd yn cael tri amcan ond byddai'n synhwyrol i'r gwerthuswyr sicrhau eu bod yn ategu'i gilydd. Byddai dewis yr un gwerthuswr ar gyfer athrawon sy'n rhannu swydd yn helpu gyda'r broses.

Dylid troi at NASUWT am gyngor ynghylch unrhyw bryderon.

Athrawon ag anableddau

Mae'n rhaid i athrawon ag anableddau sicrhau bod yr amcanion sy'n cael eu gosod yn rhai rhesymol yng nghyd-destun eu hanabledd gan adlewyrchu, fel y bo'n briodol, unrhyw addasiadau rhesymol sydd wedi'u gwneud er mwyn cefnogi eu cyflogaeth, yn unol â deddfwriaeth.

Rhaid cymryd gofal hefyd i sicrhau bod y gefnogaeth a gynigir gan yr ysgol i helpu gyda chyflawni amcanion yn gefnogaeth briodol. Er enghraifft, byddai'n afresymol disgwyl presenoldeb mewn cwrs hyfforddi penodol oddi ar y safle os yw teithio'n anodd neu os nad oes gan y lleoliad unrhyw ddarpariaeth addas ar gyfer anabledd yr athro.

Dylid troi at NASUWT am gyngor ynghylch unrhyw bryderon.

AMSERLENNI

Mae'n rhaid i'r amserlen ar gyfer pob amcan fod yn realistig. Yn gyffredinol, dylai athrawon gael y cylch adolygu cyfan i gwblhau pob un.

Os cytunir ar amserlenni eraill ar gyfer amcan, dylid cofnodi hyn yn y cofnod cynllunio.

CEFNOGAETH

Mae darparu cefnogaeth briodol yn hanfodol os am gyflawni amcanion.

Mae'r gefnogaeth yn cynnwys datblygiad proffesiynol, darparu amser a gyfeirir a chyllid. Bydd rhaid i'r pennaeth roi briff llawn i'r gwerthuswyr cyn y cyfarfod cynllunio er mwyn sicrhau bod amcanion yn cael eu gosod oddi mewn i'r adnoddau sydd ar gael. Bydd defnyddio amcanion a rennir yn gwneud y broses gyfan o ddewis a darparu cefnogaeth yn llawer symlach ac yn fwy cost-effeithiol ac effeithlon.

Datblygiad proffesiynol

Bydd dwy agwedd allweddol ar y defnydd o weithgareddau datblygiad proffesiynol wrth osod amcanion. Gydag un agwedd, y cyfranogiad yn y gweithgaredd ei hun yw'r amcan; gyda'r llall bydd y gweithgaredd yn cefnogi'r athro i gyflawni amcan.

Dylid dehongli'r term datblygiad proffesiynol yn ei ystyr ehangaf, nid dim ond fel darparu cyrsiau hyfforddi. Mae gweithgareddau fel addysgu tîm, gweithio ar y cyd, arsylwi arferion da cydweithwyr eraill yn yr ystafell ddosbarth, trafodaethau mewn cyfarfodydd adrannol neu aelodaeth o weithgorau i gyd yn gyfystyr â datblygiad proffesiynol.

Amser a gyfeirir

Mae'n rhaid datgan yr amser a gyfeirir sydd i'w neilltuo i alluogi i'r gweithgaredd gael ei gwblhau. Ni ddylid gofyn i athrawon ymgymryd ag unrhyw weithgaredd yn eu hamser eu hunain, ac ni ddylent wirfoddoli i wneud hynny. Gan fod rhaid cyflawni amcanion oddi mewn i amserlen bendant, mae gan athrawon hawl gytundebol i neilltuo o amser a gyfeirir er mwyn cwblhau'r dasg.

Mae'r pum niwrnod heb ddisgyblion (ag iddynt enwau amrywiol fel HMS, dyddiau athrawon neu Ddyddiau Baker) yn darparu ffynhonnell ddelfrydol o amser ar gyfer gweithgareddau cysylltiedig ag amcanion. Er enghraifft, os yw'r amcanion yn datgan bod rhaid i athro gymryd rhan mewn gweithgareddau datblygiadol, mae neilltuo amser yn ystod diwrnod athrawon yn dileu'r angen am athrawon llanw ac yn osgoi'r cymhlethdod o geisio ymgorffori gweithgareddau o'r fath mewn calendr y cytunwyd

arno eisoes. Mae gweithgareddau datblygiadol yn cynnwys datblygu deunyddiau neu gynlluniau gwaith newydd ar y cyd â chydweithwyr, ymweliadau ag ysgolion eraill i arsylwi arferion da a hyfforddiant i'r ysgol gyfan, y maes cwricwlwm neu'r adran.

Cyllid

Mae cyllid priodol yn rhan greiddiol o ddarparu cefnogaeth. Bydd angen cyllid ar gyfer nifer o'r gweithgareddau a gynhelir ar sail yr amcanion. Gall hyn gynnwys ffioedd cwrs, teithio a chynhaliaeth am fynychu cyrsiau hyfforddi, prynu offer arbenigol allanol a/neu athrawon llanw er mwyn rhyddhau athrawon o'u hymrwymiaadau i'w hamserlen.

Wrth fabwysiadu'r polisi rheoli perfformiad, dylai'r corff rheoli fod wedi datgan dyraniad cyllidebol i gefnogi'r broses, gan ymgynghori â'r pennaeth.

Nid cyfrifoldeb yr athrawon yw dod o hyd i ffynonellau o gyllid i gefnogi eu hamcanion.

Gwerthuso'r canlyniad

Asesir y perfformiad yn erbyn yr amcanion ar sail y meini prawf perfformio sydd wedi'u gosod ar ddechrau'r cylch a chan roi ystyriaeth i'r cofnod Adolygu a Datblygu Ymarfer.

Dylid asesu cynnydd da tuag at gyflawni amcan heriol mewn ffordd ffafriol, hyd yn oed os nad yw'r meini prawf perfformio wedi'u bodloni yn llawn.

Dylid cydnabod cryfderau a chyflawniadau a rhoi ystyriaeth i unrhyw ffactorau y tu allan i reolaeth y sawl sy'n cael ei werthuso, gan gynnwys unrhyw anawsterau o ran amodau gwaith sydd wedi cael effaith ar gyflawni amcanion.

ADOLYGU AMCANION YN YSTOD Y CYLCH GWERTHUSO

Unwaith mae amcanion wedi'u gosod a'r cylch adolygu wedi dechrau, efallai bydd amgylchiadau'n codi sy'n ei gwneud yn anodd i'r rhai sy'n cael eu gwerthuso gyflawni eu nodau. Gall y rhain gynnwys yr ysgol yn methu darparu'r gefnogaeth y cytunwyd arni, salwch, beichiogrwydd ac absenoldeb mamolaeth neu amgylchiadau personol.

Os bydd athro'n rhagweld anawsterau gyda chyflawni amcan ar unrhyw adeg yn ystod y cylch adolygu, dylid cysylltu â NASUWT cyn gynted ag sy'n bosib. Bydd hyn yn galluogi i gyngor gael ei roi ynghylch y ffordd fwyaf priodol o ddatrys y broblem, gan gynnwys a yw gofyn i reolwyr yr ysgol adolygu'r amcanion yn briodol.

Bydd yn bwysig gwarchod rhag gwerthuswyr sy'n cyflwyno adolygiadau yn ystod y cylch adolygu a hynny dim ond er mwyn gwneud yr amcanion yn fwy beichus neu helaeth. Os yw gwerthuswr yn awgrymu adolygu amcan, dylid gofyn am gyngor gan NASUWT ynghylch y cynnig a'r rheswm drosto.

BAICH GWAITH

Mae darpariaethau Cyfarwyddiadau Gweithredu Cenedlaethol NASUWT yn rhoi sylw i bob agwedd ar reoli perfformiad.

Ni ddylai'r baich gwaith gynyddu o ganlyniad i reoli perfformiad neu gyflawni amcanion os gweithredir cyfarwyddiadau a chanllawiau NASUWT.

METHU CYFLAWNI AMCANION

Os cedwir at y cyngor yn y cyfarwyddyd hwn, mae'n annhebygol y bydd unrhyw un sy'n cael ei werthuso'n methu cyflawni ei amcanion, oherwydd ni ddylai fod wedi cytuno ar unrhyw amcanion nad oedd yn credu y gallai eu cyflawni. Hefyd, rhaid cofio mai nid dim ond proses o lwyddo neu fethu yw hon, ond gweithio at gyflawni amcanion. Os credir yng nghyfarfod adolygu'r gwerthusiad nad yw'r sawl sy'n cael ei werthuso wedi cyflawni un neu fwy o'r amcanion, yna byddai'n annoeth cytuno ar amcanion newydd ar gyfer y cylch nesaf sy'n seiliedig ar y rhai sydd heb eu bodloni, neu'n gysylltiedig â hwy, heb ofyn am gyngor gan NASUWT.

Os nad yw'r sawl sy'n cael ei werthuso'n cytuno â'r asesiad sy'n datgan nad yw wedi cyflawni un neu fwy o'i amcanion, yna dylid troi at y weithdrefn apelio y manylir arni yn y Rheoliadau.

Dylid cysylltu â NASUWT o dan yr amgylchiadau hyn.



Clos Greenwood, Parc Busnes Porth Caerdydd, Caerdydd CF23 8RD
Ffôn: 029 2054 6080 Ffacs: 029 2054 6089
E-bost: rc-wales-cymru@mail.nasuwt.org.uk
Gwefan: www.nasuwt.org.uk